ECO'R WYDDFA

RHIF 285 NADOLIG/IONAWR 2002 PRIS 40c

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i'r holl
ddarllenwyr, cyfrannwyr
a hysbysebwyr

Danteithion Dwyieithog yr Amgueddfa Lechi

Caffi'r Ffowntan yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Llanberis, Gwynedd yw enillydd diweddaraf Bwydlen Ddwyieithog y Mis, cynllun arbennig a drefnir ar y cyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Blas ar Gymru.

Cyflwynwyd tystysgrif arbennig i'r Amgueddfa yng ngŵyl Fwyd Deudraeth, a gynhaliwyd yng Nghastell Deudraeth, Portmeirion yr wythnos ddiwethaf, lle roedd Bwrdd yr Iaith yn cyflwyno seminar ar ddwyieithrwydd yn y sector lletygarwch a bwyd.

Meddai Rhodri Williams, Cadeirydd y Bwrdd:

'Mae nifer yr enwebiadau rydym yn eu derbyn bob mis yn profi fod y cynllun wedi cydio yn nychymyg bwytai a bwytwyr ym mhob rhan o Gymru! Mae Bwydlen Ddwyieithog y Mis yn gyfle da i fwytai, caffis a thafarndai dderbyn canmoliaeth am eu bwydlenni dwyieithog, ac i annog sefydliadau eraill i ddilyn eu hesiampl a throi at ddwyieithrwydd i dynnu dŵr o ddannedd eu cwsmeriaid.'

Dyma'r ail dro i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru fod yn llwyddiannus yn y cynllun, gan i fwydlen o Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan ennill y wobr rai misoedd yn ôl.

Bwriad y cynllun yw tynnu sylw at ddefnydd arbennig o ddwyieithrwydd mewn pob math o fwydlenni. Bydd enillydd pob mis yn derbyn tystysgrif, a bydd y person sy'n enwebu'r bwyty buddugol yn derbyn copi Cymreig o'r gêm boblogaidd, Monopoly. Mae taflenni enwebu ar gael ym mhob rhan o Gymru, neu drwy gysylltu â'r Bwrdd yn uniongyrchol.

Mae'r Llinell Gyswllt â'r Gymraeg yn cyfleithu bwydlenni yn rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n dymuno cynnig gwasanaeth dwyieithog. Am fanylion, cysylltwch â'r Llinell ar 0845 607 6070.

Mae cymryd rhan yn y cynllun yn hawdd – gallwch anfon enw a chyfeiriad y bwyty ar e-bost at bwydlen@bwrdd-yr-iaith.org.uk, neu gellir anfon y ffurflen enwebu ar gefn y daflen at Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Rhadbost CF3248, Caerdydd CF10 1GZ. Gellir ffonio Adran Farchnata'r Bwrdd ar 029 2087 8000 am ragor o fanylion.

Llawenydd yr Ŵyl

Mae'n amlwg fod un o drigolion y fro wedi gwirioni efo'r hen Sion Corn. Gobeithio y caiff lonydd i ymweld â gweddill cartrefi'r ardal!

Iddon Edwards o Fenter Iaith Gwynedd yn cyflwyno tystysgrif Bwydlen Ddwyieithog y Mis i Mairwen Baylis o Gaffi'r Ffowntan, Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.

ECO'R WYDDFA

RHIF 285
DOLIG/IONAWR 2002

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Chwefror	Ionawr 21	Ionawr 31	Waunfawr	Mrs Nan Roberts

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677436)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650788)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 9 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-GOED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, IONAWR 21
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, IONAWR 31

Llythyrau

Annwyl Ddarllenwyr

Cynhaliwyd Ffair Nadolig flynyddol lwyddianus iawn yng Nghaban-y-cwm, Cwm-y-glo ar nos Iau, 29 Tachwedd. Gwerthwyd digon o fins peis, bara brith, siytnis a jams i gadw Gwenda a chriw Caffi Padarn yn Fachwen yn brysur trwy gydol y dydd.

Cafwyd raffl wych gyda nifer o wobrau ardderchog i godi calon pawb yng nghanol y gaeaf noethlwm! Diolch i Emyr Gibson a Martin Thomas a ddaeth atom o 'Rownd a Rownd' i Siôn Corn, a fu wrthi'n ddyfal yn trafod dymuniadau Nadoligaidd; i Keith a gweithwyr Canolfan Garddi Tŷ Gwydr; i bawb a gyfrannodd y gwobrau bendigedig; i'r gwirfoddolwyr ac i Avril, Sioned a'r genod o Gymdeithas Adeiladu'r Abbey National, sy'n cyfrannu punt am bunt tuag at y swm anrhydeddus iawn a gasglwyd o £900.

Diolch yn arbennig hefyd i Ann a gweithwyr Caban-y-cwm am yr holl drefnu a'r paratoadau, ac wrth gwrs i chwi, pawb a gefnogodd y Ffair i sicrhau ei llwyddiant.

Yn gywir
Gareth James
Menter Fachwen

Rhestr o enillwyr y Raffl

Siampên: Eirian Mali; 2 botel win a gwydrau: Jill Harris; Hamper, bisgedi, teisennau: Iola; Gwin a gwydrau:Ann Bierd; Gwin a gwydrau: Simon Higgins; Tedi: Rhian Jones; Set cloc a choffi Nescafe: Eirlys Williams; Set sebon ac ati: Anwen; Potel o win: Mair Jones; Set o sgriwdreifars: Avril, Llanberis; Roses: Kate Toms; Potel chwisgi: Nyrs Jane; Tin bisgedi: Meira Wiliams; Set Body Shop: Jean Jones; Tapestri: Nyrs Einir; Set Body Shop: James Andrew; Tocyn gwerth £10 o gig o Padarn Meats: Sandra Davies; Tocyn gwerth £10 o'r Fachell: Avril, Cwm-y-glo; Planhigyn: Enid Price; Hamper ffrwythau: James Andrew; Gwin coch: Nyrs Jane; Planhigyn: Cadw-mi-gei: Bet.

Enwi'r ddoli: Anwen, Alexandra House; Cyfri'r Resins siocled: Dorothy Jones, Frongader.

Clwb Garddio Tŷ Gwydr Cwm-y-glo
Noson Agoriadol
Nos Iau, 31 Ionawr
am 7 o'r gloch
yng Nghaban-y-Cwm
Mynediad am ddim
yn cynnwys paned a bisgedi
Croeso i bawb yn yr ardal

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

NADOLIG LLAWEN a BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo
Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH GARDDIO PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro *Eco'r Wyddfa* oddi wrth bawb ym musnes llefrith
EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: (01286) 870563
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT AA RAC

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Garb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

Eisiau Dilyn Cwrs Hanes yn Lleol

Bydd Gwilym Trefor Jones, un o diwtoriaid profiadol Adran Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Cymru, Bangor yn dysgu cyrsiau hanes mewn nifer o ganolfannau newydd yn y flwyddyn newydd, gan gynnwys yn Llanrug.

Bydd Gwilym sydd yn ddaearyddwr ac yn hanesydd yn dysgu cwrs 10 wythnos ar 'Deithio yng Ngogledd Cymru yn ystod y Ddeunawfed a'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', yn Sefydliad Coffa Llanrug gan ddechrau ar nos Fawrth, Ionawr 15 am 7 o'r gloch.

Mae'r cwrs yn edrych ar ddatblygiad amaeth, diwydiant a thwristiaeth yng Ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod, a phwysigrwydd systemau trafnidiaeth i'r datblygiadau hyn, drwy gyfrwng darlithoedd a sleidiau a thrafodaethau gyda'r dosbarth.

Does dim rhaid i bobl gofrestru ymlaen llaw, gellir cofrestru yn ystod y sesiwn gyntaf. Cost y cwrs yw £40, ond cynigir gostyngiad o 50% i bobl dros 65 oed. Os ydych yn derbyn rhai budd-daliadau neu ar incwm isel mae'n bosib y gallech wneud cais i gael eich ffioedd wedi'u talu, ac astudio am ddim. Os ydi hyn yn bwysig i chi cysylltwch â'r Adran ar (01248) 383896.

Ymysg cyrsiau eraill a drefnir gan yr Adran mae cwrs ar Ecoleg ac Amgylchedd fydd yn cael ei ddysgu yng Nghanolfan Dysdgu Gydol Oes, Llanberis. Cwrs 10 wythnos yw hwn a ddysgir drwy gyfrwng y Saesneg gan ddechrau ar Ionawr 17 am 7.30pm. Mae copiau o'n rhaglen lawn ar gael o'ch llyfrgell leol, neu drwy gysylltu â'r Adran ar (01248) 383896.

Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

41A STRYD FAWR
LLANBERIS Ffôn: 872501

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH IFOR A MARGARET

Cyflog Chwarelwr

O, Gymru, O Gymru gwrandewch ar fy nghân,
Rwyf yma mewn penbleth yn ymyl y tân,
Rwy'n meddwl am rywun mor isel â hyn,
Y dyn sydd yn hollti y graig gyda'r cyn,
'Ond', meddai'r meistr, 'Ni chodaf eich pris,
Ond rhof i chi fenthyg tan ddiwedd y mis.
Cewch saith a chwech eto," oedd geiriau y cawr
'Ond cyma dy siawns os yw'r cynnyrch i lawr,"

Wel dyna yw'r helynt sydd heddiw'n Llanbêr,
Yr isrif ond chwe phunt i brynu y gêr,
Rhaid talu am 'bowdwr', y cynion a'r rhaff,
Y 'fuse' a'r gapsan, wel rhaid bod yn graff.
Rhaid talu i'r efail, a thyllu y graig,
Wel, talu a thalu, ond beth am y wraig?
Ac os yr eith pethau ymlaen yr un fath,
Bydd gennym ddim cyflog i gadw y gath.

R'ym yma yn ymladd yn stormydd y byd,
Yn law, ac yn eira a'r gwyntoedd o hyd,
A chrafu yn galed ar glogwyn di-les
I chwilio am 'slediad' a dipyn o bres.
Ein cyflog sy'n fychan, a'n llafur mor fawr,
Ac ymladd yn galed i ennill bob awr;
Ceith gadw ei fenthyg, nid cardod i ddyn
Am dynnu y llechi o'r graig gyda'r cŷn.

Mae popeth yn codi, a'r siopau yn ddrud,
Ond isrif chwarelwr sy'n isel o hyd.
Mae'r gofyn a dadlau yn drwm ar fy nghlyw,
Nid am fenthyg, O! Na! ond sicrwydd i fyw,
Gobeithio rwyf finnau y daw cyn bo hir
Bydd trefydd trwy Gymru yn gwybod y gwir,
A chodi â'i gilydd i helpu y dyn
Sy'n symud y mynydd â'i forthwyl a'i gŷn.

Anfonwyd y penillion hyn atom gan
Mrs Katie Griffiths, 23 Maes Padarn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid, cefnogwyr a gwirfoddolwyr oddi wrth

Canolfan Garddio Tŷ Gwydr, Cwm-y-glo
Caffi Caban y Cwm, Cwm-y-glo
Parc Gwledig Cwm Derwen, Llyn Padarn
Caffi Padarn, Fachwen
Gweithdy Craig yr Wylan, Fachwen
Cantîn Hyfforddiant Gwynedd, Cibyn
Garddwyr y Fro

Mae'r busnesau uchod yn cael eu rhedeg gan

menter fachwen

Cwmni di-elw sy'n darparu hyfforddiant a gwaith yn y gymuned.

Rhif elusen 701163
Rhif ffôn (01286) 872014

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll oddi wrth bawb yng

NGORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

TICEDI LOTERI AR WERTH

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CHWILOTA

Englyn Gan Bwy – a Phryd?

Anaml y rhoddir enw'r bardd ar englyn coffa ar garreg fedd. Mae'n digwydd, wrth gwrs, ond mae'n hawdd dychmygu'r teulu yn penderfynu ar englyn a wyddent ar eu cof, heb y synied lleiaf pwy oedd yr awdur. Mae'n bosibl hefyd y byddai enw'r awdur yn cymryd llinell ychwanegol ar y feddfaen, ac yn ychwanegu at y gost! Does ryfedd felly fod cryn ddyfalu ynglŷn ag awduron rhai englynion coffa. A'r syndod yw fod nifer dda o'r un rhai i'w cael mewn gwahanol fynwentydd, a'r rheini filltiroedd oddi wrth ei gilydd.

Deuthum ar draws nodiadau am yr englyn canlynol yn weddol ddiweddar wrth bori unwaith eto yn llyfr Gomer M. Roberts – *Mynwenta*, sef casgliad o wahanol englynion coffa a godwyd oddi ar feddfeini yma ac acw drwy Gymru.

Curo am Drugaredd

Edrych, ddyn dewrwych, cyn
d'orwedd – am fodd
I faddau d'anwiredd;
Tro i guro am drugaredd
Yn dy fyw cyn cau dy fedd.

Ifan Griffith yw'r awdur, efallai, meddai Gomer M. Roberts. Yn ei nodiadau gwaelod y ddalen, dywed fod yr englyn yn ymddangos ar garreg fedd Ifan Griffith, neu Ifan yr Hwper, ym mynwent Allt-wen, Pontardawe, Morgannwg. Bu farw ym mis Tachwedd 1843. Thomas Levi, mewn erthygl yn *Y Traethodydd* (1869) sy'n honni mai Ifan Griffith oedd awdur ei feddargraff ei hun. Mae Gomer M. Roberts yn cofnodi'r englyn ym mynwentydd Soar, plwyf Llandeilo, sir Gaerfyrddin ac Ebenezer Dyfed, sir Benfro. Ar yr olwg gyntaf mae hyn yn awgrymu mai englyn yn perthyn i dde Cymru ydyw, ond nid felly.

Mewn erthygl yn *Yr Haul a'r Gangell* (1972) dywed y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones fod yr englyn i'w gael ar fedd Griffith Owen ym mynwent hen eglwys Llanidan, Môn mor gynnar â 1796.

Doedd bosibl i Ifan Griffith fod wedi ei gyfansoddi felly.

Ond mae'r englyn, neu o leiaf ran o'r englyn yn ymddangos flwyddyn ynghynt ym mynwent eglwys Mihangel, Llanrug. Fe'i cofnodir ar fedd John Maurice ac Ellin Hughes o Gwm y Glo. Bu John Maurice farw yn 1788 ac Ellin, ei wraig yn Ionawr 1795. Dyma'r englyn ar eu beddfaen:

Edrych ddyn dewrwych cyn
d'orwedd – am ddal
I ddilin ffordd sangtedd,
Gwna guro am drugaredd
Glanha'th fai cyn mynd i'th fedd.

Nid yw'r gynghanedd yn gywir yn yr englyn cynharach hwn, ac y mae'r llinell olaf yn hollol wahanol. A yw hyn yn awgrymu mai oddi ar y cof y cerfiwyd o ar fedd y ddau o Gwm y Glo? Ac os felly, mae'n awgrymu fod yr englyn wedi ei gyfansoddi yn llawer cynharach. Ond a oes gofnod ysgrifenedig cynharach ar gael?

Hen, hen daid Syr John Morris-Jones, Athro Cymraeg cyntaf Coleg y Brifysgol, Bangor oedd y John Maurice hwn o Gwm y Glo. Byddai'n ddiddorol gwybod a oedd Syr John yn ymwybodol o'r 'englyn' hwn ar garreg fedd ei hynafiaid ym mynwent Llanrug, a hynny'n enwedig o gofio mai ef roes drefn ar gelfyddyd barddoniaeth yn ei gyfrol *Cerdd Dafod*.



Llun o'r garreg fedd ym mynwent Pilgrim's Rest.

Teulu Crwydrol

Ac o sôn am hynafiaid Syr John Morris-Jones, dyma lythyr a llun yn cyrraedd o Dde Affrica trwy law Menna Medi o'r Groeslon ar ran Gwenda Jones o Lanuwchllyn. Bu Gwenda Jones yn byw yn Johannesburg am ddeunaw mlynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, teithiodd lawer o amgylch y wlad. Daeth ar draws mynwent *Pilgrim's Rest*, sy'n llawn beddau ac iddynt enwau Cymraeg a Chymreig – y mwyafrif ohonynt â chysylltiadau â de Cymru – a'r cyfan bron wedi marw'n ieuanc yn y rhuthr i'r pyllau aur cyn Rhyfel y Boer.

Yn y fynwent tynnodd lun carreg fedd John David Morris, Eithin Duon, Llanrug a fu farw ar 18 Awst 18 1898 yn 29 mlwydd oed. Arni ceir y pennill hwn gan Llew Llwyfo :

John Dewi Morys erys am orig
Yma, lle huna mewn bro bellenig;
Ond 'e gwyd yn fendigedig – eto
Heb wyrth i'w effro'n neheubarth
Affrig.

Cyd ddigwyddiad oedd i'r llythyr gan Menna Medi gyrraedd a minnau'n trafod englyn coffa i hen, hen daid y gŵr ifanc a gladdwyd mor bell oddi cartref. Oedd, roedd John David Morris yn gefnder i'r Athro yng ngholeg Bangor.

Mae gen i farwnad hirfaith i'r gŵr ifanc hwn, a chredaf i mi roi cryn dipyn o'r hanes mewn rhifynnau cynharach o'r 'Eco'.

Mae Menna Medi yn ei llythyr yn holi a oes rhywrai o'r teulu yn parhau yn y cyffiniau. Wel, mae disgynyddion John Maurice a'i wraig, Elin Hughes yn frith trwy'r fro a thu hwnt, ond rwy'n siŵr nad yw llawer ohonynt yn ymwybodol o hynny.

Dosbarth Ambiwlans Llanrug

Daeth y sôn yn y rhifyn diwethaf am agor Y Sefydliad Coffa yn Llanrug ag atgofion am un o'r gweithgareddau a gâi eu cynnal yno yn ystod y dyddiau

(parhad ar dudalen 21)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

teithiau peris travel

STRYD FAWR LLANBERIS

(01286) 872777

annette@peris.co.uk

- Gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar
- Gwasanaeth dwyieithog
- Gwyliau wedi eu teilwra i ateb anghenion yr unigolyn, teuluoedd neu grwpiau
- Trefniadau hedfan yn unig
- Penwythnosau yn theatrau Llundain
- Y pecyn cyflawn, h.y bws-mini o ddrws y tŷ, trefniadau hedfan, gwesty neu apartment, llogi car, ac yswriant
- Arbenigedd mewn trefnu teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
- Bargeinion munud olaf
- Teithiau tramor gyda chantorion o Gymru

Am fanylion pellach, ffoniwch **Annette** neu **Bethan**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

Royal Victoria Hotel

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis 870253

Un funud fach

NADOLIG LLAWEN?

Mac'n Ddolig. Ond am Ddolig! Tra bu'r goleuadau'n ddisglair mewn strydoedd a thai mae hen bobol yn sir Fôn yn ofni byw yn eu cartrefi eu hunain oherwydd y llofruddiaeth yn Llanfairpwll. Disgynnodd y bomiau yn Affganistan. Cafodd plant bach eu lladd gan derfysgwyr ar stryd ym Mhalestina. Mae cannoedd wedi colli eu gwaith yng Nghymru yn unig. Cafwyd achosion llys llofruddiaethau Sarah Payne a Threfnant. Mae miliynau yn newynog neu'n ffoaduriaid. Lladdwyd pedwar gr ifanc mewn damwain car yn y De. Treisiwyd a lladdwyd lleian yn Iwerddon. Ac mae miloedd o deuluoedd yn wynebu Nadolig poenus ac unig oherwydd digwyddiadau erchyll yr unfed dydd ar ddeg o Fedi.

Mae'n fyd dychrynllyd ar drothwy'r Wŷl eleni. Byd o helbulon a thrafferthion. Byd o bechod a phoen. Ond mae'r dathlu'n mynd rhagddo, a'r gwledda a'r siopa a'r elwa yn para. Ac mae'n anodd gwybod be sy'n iawn. Does neb eisiau dathlu a bod yn anystyriol o ddioddefiadau pobl eraill. Mae'n ddigon hawdd mynd ymlaen fel arfer gan ddweud ein bod yn herio pob terfysgwr a llofrudd trwy fynnu nad oes dim yn mynd i'n rhwystro rhag dathlu. Gall hynny fod yn esgus hwylus dros gau ein llygaid i bob dioddef o'n cwmpas.

Ond dathlu sydd raid. Holl bwynt y Dolig yw bod Iesu Grist wedi dod i ganol byd llawn helyntion, llawn problemau, llawn pechodau a llawn dioddefiadau. Ac fe ddaeth i fod gyda ni, i ddeall ein hanawsterau, i rannu ein poenau, i gymryd ein pechodau. Cawn gadw'r Wŷl eleni a chofio mai Iesu Grist yw'r Tywysog Tangnefedd a fedrai gymodi George Bush â Bin Laden, a'u gwneud yn frodyr i'w gilydd. Iesu yw'r Gwaredwr sy'n cynnig y maddeuant y gall hyd yn oed lofruddion fel Roy Whiting ofyn amdano. Iesu yw'r Meddyg Mawr sy'n estyn gobaith i alarwyr yn Efrog Newydd a Phalestina, a chysur i'r rhai sy'n byw mewn ofn, a chymorth i'r newynog a'r tlawd.

Dathlwn yr Wŷl yn llawen a chyhoeddi o'r newydd nad aeth y Nadolig yn ddiystyr i fyd sy'n llawn pechod a phoen..

Nadolig Llawen iawn i chi oll.

JOHN PRITCHARD

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL CWM

Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

PLAS PENGWAITH. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi'r Ffair Nadolig ar Ragfyr 8. Diolch hefyd i Mr Basil Thomas, ein Sion Corn am ei waith ar y diwrnod.

Enillwyr y raffl oedd 1. Anne, Plas Pengwaith; 2. 675900; 3. 62 Maes Padarn; 4. (01248) 670114; 5. Kim; 6. (01248) 671222; 7. 830120; 8. D. Jones; 9. 870934; 10. 830805; 11. 677381; 12. Nesta, 1 Cil Coed; 13. (012148) 8715486; 14. 676706; 15. Siôn; 16. 871394; 17. (01248) 670752; 18. 872081; 19. 3 Snowdon Street; 20. 671002; 21. 830805; 22. (01766) 512607); 23. 673369; 24. 870495; 22. (01766) 512607; 23. 673369; 24. 870495; 25. 676396; 26. 871151; 27. Sharon Grace; 28. 675992; 29. Ann, P.PG; 30. 673988; 31. Jen, P.PG; 32. (01407) 810963; 33. 871786; 34. Molly; 35. 671222; 36. 671222; 37. 676752; 38. 870686; 39. Carys, P.PG; 40. 871678; 41. 677840; 42. 872271; 43. 670752; 44. 9 Snowdon Street; 45. 871776; 46. 678857; 47. 35348; 48. Ruth.

Enw'r Tedi: Clive – 676251.4

Hefyd carem ddiolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth draw atom i'n diddori i fyny at wyliau'r Nadolig a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Bu angladd Miss Ann Jones, 4 Minafon Terrace am 10 o'r gloch ar 1 Ragfyr yn Capel Coch. Bu farw'n dawel yn y Cartref ar 27 Tachwedd ac, er mai dim ond am gyfnod byr y bu yma gyda ni, fe oedd yn gyfarwydd iawn â'r Cartref ers rhai blynyddoedd, gan iddi fod yn gwasanaethu'r trigolion trwy nôl negeseuau i'r pentref a chadw'r siop symudol i fynd a hyn i gyd hyd nes oedd yn ei 80au ei hun. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

Wedi dod i aros atom am gyfnod mae Mrs M. Owen a Mrs G.P. Smith, y ddwy o Lanberis. Dymunwn estyn croeso cynnes iawn iddynt.

Wedi ymgartrefu yng Nghartref Bryn Eryri erbyn hyn mae Mr L. Morris a dymunwn bob hapusrwydd iddo yno.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd cyfarfod misol Undeb y Mamau Eglwys Sant Padarn yn 'Nant' Coed-y-Ddôl bnawn Mawrth 13 Tachwedd. Cymerwyd y Gweddiau agoriadol gan Mrs Betty Humphreys.

Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod Deoniaethol a gynhaliwyd yn Festri Eglwys y Santes Fair Caernarfon bnawn dydd Llun, 12 Tachwedd. Gwnaed trefniadau ar gyfer Gwasanaeth Darlleniadau a Charolau y mis nesaf. Cafwyd pnawn hynod o ddifyr yn ceisio datrys 'cwis' a ddarparwyd gan Mrs Nan Owen. Yn ymorol am y baned yr oedd Mrs Nellie Morris a diolchwyd gan Mrs Bet Hughes.

DYMUNA teulu'r ddiweddar Olwen Morris, 56 Maes Padarn Llanberis (gynt o 1 Sgwâr Glynllifon, Y Groesion) ddiolch o galon am y caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, nain a mam yng nhgyfraith hoffus a charedig. Diolch am yr holl gardiau a galwadau ffôn ac am yr holl roddion a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Dolwenith, Pen-y-groes a'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Diolch i'r Parchedigion Eric Roberts a Philip Hughes am eu gwsanaeth parchus. Diolch hefyd i'r ymgymerwyr Iolo a Robin o gwmni trefnwyr angladdau Robert ac Owen, Pen-y-groes am eu cymorth ac am y gofal a gawsom ganddynt fel teulu.

Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd.

COLLED: Ar y 27 Tachwedd ym Mhlas Pengwaith bu farw Ann Jones yn 93 mlwydd oed. Er iddi drigo yn 4, Rhês Minafon ers 1966, yn Llanrug yr oedd ei gwreiddiau. Fe'i ganwyd yn ferch 'fenga i Griffith a Mary Jones, Minffordd ac yn chwaer i'r ddiweddar Mem a'r diweddar Evan a Richard. Yn dilyn gwasanaeth angladdol yng Nghapel Coch ar 1 Rhagfyr rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Llanrug.

Adnabyddid hi fel Miss.Ann Jones i'w chydweithwyr yn y gwasanaeth sifil, ond fel Annie Minffordd i'w ffrindiau yn y fro, ac yn annwyl iawn fel Nan Nan i'r teulu. Bu'n gefn ac yn angor i'w rhieni, i'w chwaer a'i brodyr, ac yn fodryb arbennig o ofalus i'w neiaint, ei nith, ac yn hen fodryb uchel ei pharch i'w plant hwythau. Parhaodd i wasanaethu eraill ar ôl symud i Lanberis gan ymroi i'r gwaith o ofalu am yr henoed. Parhaodd i gefnogi sawl achos yn y pentref yn amrywio o Glwb yr Henoed i'r Clwb Pêl-droed. Roedd yn gefnogwraig frwd iawn o hen dîm Llanrug ac, yn ddiweddarach – Y Darans!

Dymuna Cled, Bert, Gwyneth ac Arwel ddiolch i aelodau'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled o golli modryb oedd mor annwyl ganddynt. Dymunant ddiolch i holl staff Ward Beuno Ysbyty Gwynedd; staff Ward Padarn Ysbyty Eryri, a staff Plas Pengwaith am eu gofal tyner ohoni yn ystod yr wythnosau olaf. Carent ddiolch o waelod calon i'r cynorthwywyr cartref caredig a fu'n galw'n ddyddiol. Eu diolch diffuant i'r Parchedig John Pritchard a'r Parchedig Marcus Robinson am eu gwasanaeth yng Nghapel Coch a'r fynwent, ac i'r blaenoriaid, Cledwyn Parry, John Huw Hughes, Colin Jones ac Idwal Roberts am bresenoli eu hunain. Gwerthfawrogwyd gwasanaeth yr organyddes, Iona Jones, yn fawr, ynghyd â gwasanaeth T. J. Roberts wrth y drws. Mawr ddiolch i Danny a Nerys 'Y Bistro' am baratoi y danteithion yn dilyn yr angladd. Diolch i bawb am eu negeseuon cysurlon o gydymdeimlad, ac am y cyfraniadau ariannol a dderbyniwyd ac a gyflwynir maes o law fel rhodd i'r Feddygfa yn Llanberis.

Carent ddiolch hefyd i E.W.Pritchard am y trefniadau angladdol hynod effeithiol.

Sioned Johnson, Is-ysgrifenyddes y Carnifal yn cyflwyno siec o £1800.00 i Cheryl Ann Morgan, Arweinyddes Cylch Meithrin Llanberis.

Sioned Johnson, Is-ysgrifenyddes y Carnifal yn cyflwyno siec o £999.99 i gynrychiolwyr Clwb Babanod Llanberis.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CŴN YN BAEDDU. Yn anffodus mae rhai perchnogion cŵn yn caniatau i'w hanifeiliaid faeddu'r cae chwarae a'r cae pêl-droed. Mae hyn yn beryglus i iechyd y plant ac eraill sy'n chwarae pêl-droed ac yn mwynhau'r cae. Bydd Pwyllgor y Cae Chwarae yn erlyn y sawl sy'n gyfrifol am y weithred hon.

Y GANOLFAN GYMUNED. Gellir gweld wrth gerdded heibio fod y gwaith addasu ar adeilad y Capel fel Canolfan Gymunedol a Chapel yn mynd yn ei flaen. Gyda lwc bydd y gwaith strwythurol allanol wedi ei gwblhau cyn tywydd mawr y gaeaf. Disgwylir y bydd Rhan Gyntaf y gwaith wedi ei orffen erbyn Pasg 2002. Bydd dyddiad cwblhau'r Ail Ran, gan gynnwys y prif elfennau cymunedol, yn dibynnu ar godi'r arian angenrheidiol. Eisoes bu rhaid benthyca £16,000 er mwyn sicrhau gorffen y Rhan Gyntaf. Felly bydd rhaid ail-ddechrau ar y gwaith codi arian trwy'r Pwyllgor Codi Arian. Bydd y cyfarfod nesaf am 7.30 yh nos lau 10 Ionawr yn Lolfa, Tafarn Bryngwna.

PÊL-DROED ELUSENNOL. Diolch i Gareth Griffiths, bu'r gêm bêl-droed rhwng Caeathro a Waunfawr a'r anturiaethau wedyn yn llwyddiant gyda elw o £60 ar gyfer y Ganolfan newydd. Bydd gêm arall rhwng Caeathro a Waunfawr ar Gae Chwarae Caeathro am 11 y bore, fore Sul, 30 Rhagfyr gyda'r elw tuag at leukemia.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn am 11 y bore ar Sul 13 Ionawr yn Ystafell y Bwrdd, uwchben y Garej a'r Siop. Ar hyn o bryd nid yw dyddiadau'r gwasanaethau teulu yn hysbys.

PWYLLGOR Y CAE CHWARAE. Bydd cyfarfod o Bwyllgor Cae Chwarae Caeathro am 8.00 yr hwyr nos Lun, 21 Ionawr yn Nhafarn Bryngwna. Yn ystod y cyfarfod blynyddol ym mis Tachwedd etholwyd criw o hogia fel swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor – ond dim un ferch. Ond trwy lwc, mae yna leoedd gweigion ar y Pwyllgor. Felly, bydd croeso i ferched ymuno â gweddill y Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

BENDITH TYMHOROL. Dymuna criw yr Eco – Rhiannon, Marian a Clive – Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl gyfranwyr a darllenwyr yr Eco yng Nghaeathro.

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
WILLIE A BRENDA
BRYNGWNA
CAEATHRO Ffôn: 674568
Diolch i bawb am eu cefnogaeth
drwy'r flwyddyn
BWYD BAR
PARTION I FYNY
I TUA 18 O BOBL

RHODDION

£20: Eirwen Williams, Y Felinheli er cof am ei gŵr, Gwilym Rees Williams, gynt o Ddeiniolen. Mr Eifion Jones, Ysgol Brynrefail.

£10: Mrs Nan Huws-Roberts, Bodrida, Waunfawr; Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, Llanrug; Mrs E. M. Williams, Tegfan, Ffordd Deiniol, Deiniolen; Teulu y ddiweddar Sallie Lewis, 5 Bro Deiniol, Deiniolen. Nan Jones, Caernarfon er cof am Ellen Roberts, 12 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Teulu y diweddar R.D. Lewis, 11 Maes Gwylfa, Deiniolen; Mrs Jenie Parry, 21 Hafan Elan, Llanrug; Mrs Katie Griffiths, 22 Hafan Elan, Llanrug; Mrs Ellen Roberts, 2 Gwelfynydd, Llanrug; Mrs Mair Williams, Elidir View, Cwm-y-glo.

£8: Mrs Betty Evans, 11 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

£5: Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mrs Betty Peris Jones, Cartref Preswyl Gwynfa, Caernarfon; Meilir Siôn Owen, Hafod y Rhos, Llanrug; Mrs Peggy Rowlands, Talafon, Cwm-y-glo; Di-enw, Penisarwaun. Er cof am Glenys Owen, 1 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen; Mrs Vera Parry, Bro Dawel, Deiniolen; Mrs Gwen Rowlands, Ffordd Deiniol, Deiniolen; Mrs G. Kirkpatrick, 1 Rhos Rug, Llanrug; Glen, Glyn a Sonia er cof am John Elwyn Williams, Ty'n-y-clwt, Deiniolen.

£4: Mrs Bet Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

£3: Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug.

Atebion Cwis Chwaraeon

1. Munster/Leinster
2. New Brighton
3. Marc Lloyd Williams
4. Meddyg chwarel
5. Phil Bennett
6. Pwysau canol
7. Eddie Thomas
8. Tony Lock
9. Seb Coe
10. Alain Prost
11. Ton Pentre
12. Y Traeth, Porthmadog
13. Rasio beic
14. Rotterdam
15. Malta
16. Pêl-droed merched
17. Longchamps
18. Sun City
19. Zaire
20. Tony Roberts

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU
GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GAREJ GWALIA
GWASANAETH TORRI LAWR 24 AWR
M.O.T. ★ TRWSIO GEIR
CAEATHRO
Ffôn 673096
HEFYD EIN SIOPAU
LONDIS
YNG NGHAEATHRO
A LLANRUG
Ar agor 7.30 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayyb

O SIAMBAR SELWYN

Nadolig 2001

Glywi di'r dathlu ar Noswyl Nadolig
Yn nhafarndai'r Llan?
Glywi di'r bomiau yn ffrwydro
A'r gynnau yn tanio
Yn Affganistan?

Glywi di'r clychau yn galw'r ffyddloniaid
I gynnal y gân?
Weli di'r plant yn eu dagrau,
A weli di'r beddau
Yn Affganistan?

Weli di'r goleuadau yn fflachio
A'r tanllwyth tân?
Weli di ddifrod y tanciau,
Ffyrnigrwydd y fflamau
Yn Affganistan?

Glywi di sŵn hen garolau'r canrifoedd
O addoldai'r Llan?
A weli di seren heno
Fel perl yn disgleirio
Uwch Affganistan?

Selwyn Griffith

Dirgelwch Llanddeiniolen



Y Gors
Pontrhythallt
Llanrug

Annwyl Olygydd,
O ganlyniad i effeithiau 'amser swrth a'r hin' dymchwelwyd ochr cistfaen fy hen, hen daid a nain, Morgan a Phebe Williams, Gors, Llanddeiniolen a fuont farw yn 1866 a 1875.

Oddi mewn i'r gwagle yr oedd y gwrthrych yn y llun ar ffurf tarian gyda *fleur de lys* ar y conglau (dwy ar goll). Rhyw *alby* trwm yw'r gwneuthuriad ac y mae arno ysgrifen tu hwnt i'w datrys. Mae ynddo dwll hefyd fel pe bai wedi bod yn crogi rhywdro.

Gwn ei fod yn arferiad ar un cyfnod i gladdu eiddo personol gyda chyrff fel cetynau, hetiau, menig, esgidiau ac ati.

Os gwn i a all un o'ch darllenwyr awgrymu ystyr y gwrthrych hwn?

Gyda llaw, cysgod y lein ddillad yw'r llinell ddu ar draws y llun.

Yn gywir
Siôn R. Williams

DODREFN PERKINS
SÊL NADOLIG
Hefyd: Carpedi, Llenni a Lloriau Pren
yn dechrau am 10 a.m.
Dydd Iau, Rhagfyr 27
Gwasanaeth Mesur a Ffitio
2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn: 01286 676040
Danfon am ddim yn achos pob ordor gwerth dros £200
Cawn wared o'ch hen wely neu *'suite'* am ddim
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Fersiwn Bethel o "Abba" "Oll yn eu gynnau gwynion"

Sion Stokes (chwith) o gwmni Arfonia yn cyflwyno Kit i Iwan Jones, Andrew Williams a Sion y Mascot.

Noson 'Sêr yn y Llygaid'

Cafwyd Noson Lawen ar ei newydd wedd yn Y Bedol ddechrau'r mis pan fu aelodau pwyllgor a thîm pêl-droed Bethel yn dangos eu doniau 'cerddorol' o flaen torf o rhyw 300 – record i'r clwb hyd yma!

Bu'r pwyllgor yn gweithio'n galed yn denu noddwyr ar gyfer y noson a diolchir yn fawr iawn iddynt. Gyda chostau rhedeg y tîm yn rhyw £200 y mis, mae'n bwysig cynnal nosweithiau o'r fath i gynnal a datblygu'r clwb, a rhoi sylfaen gadarn i 'fabandod' y tîm llwyddiannus yma.

Denwyd rhai o enwau mawr y byd adloniant i'r noson ac roedd llawer yn edmygu eu talent yn dynwared bechgyn lleol. Roedd rhai yn taeru mai Alan Gefn, Iwan, John Morgan a Huw Cefn Gwyn oedd Abba! Yno hefyd roedd Freddie Mercury (Dylan Williams), James Brown (Barry Land), Elvis (Andrew Gefn) wrth gwrs. Gododd y tymheredd pan ymddangosodd y 'Weather Girls' yn dynwared Huw Morgan a Frankie! Frankie goes to Bedol yn hytrach na Hollywood. Un arall a ddenodd sylw oedd hebryngydd y noson– yr anhygoel Madame Mansel! Diolch hefyd i Michael Green, Dyfan, Mark ac Ed y Chwadan am roddi tipyn o 'spice' i'r noson. Roedd pawb yn morio chwerthin dan ddylanwad y 'brethyn cartref'.

Cafwyd 'debut' addawol iawn hefyd gan Wil, Trefor, Jonathan a Dave, set y B Sharps, grŵp diweddaraf y pentref. Diolch arbennig i Elen ac Eleri Robinson am eu gwaith gyda'r cyfarwyddo, coluro, gwisgoedd ac ati.

Cafwyd ocsiwn lwyddiannus iawn a llawer o ddiolch i dimau Wrecsam, Man City, Everton a Charfan Pêl-droed Cymru am arwyddo peli. Hefyd roedd crys rygbi Teirw Duon Seland Newydd ar gael, a thocynnau i amgueddfa pêl-droed Old Trafford. Daeth yr ocsiwn ag ymateb rhyfeddol i chwyddo'r coffrau, fel y raffl am deledu lliw a chrys Cymru wedi ei arwyddo.

Roedd Maldwyn wedi gwirioni pan enillodd y crys. Gwobr wych i un sy wedi gwneud cyn gymaint dros elusennau dros y blynyddoedd.

Diolch hefyd i'r ocsiwnïar, Marcus 'Pavarotti' Robinson, ac yn sicr Noson Darma oedd hi pan oedd yr ocsiwnïar wrth ei waith. Diolch i Kevin a'i staff a'r llu o gefnogwyr a gyfrannodd mor hael i'r clwb. Gobeithio y gall y tîm ddangos eu gwerthfawrogiad gydag ambell i dlws ar ddiwedd y tymor.

PWYLLGOR Y GOFEB. Yn flynyddol rydym yn gwario er mwyn cynnal a chadw cofeb y pentref, mewn parch i'r rhai y cofir amdanynt yn flynyddol wrth y safle.

Yn y gorffennol buom yn derbyn rhoddion gan fusnesau a mudiadau er mwyn galluogi hyn i ddigwydd. Bellach mae'n cronfa yn rhedeg yn isel ac er mwyn dal ymlaen i wawrchod cyflwr y safle rydym angen rhagor o arian.

Petaech mor garedig â theimlo yr hoffech fod o gymorth, cysylltwch â Mr Idris Morris (Trysorydd) ar 01248 670439, neu Mrs Delyth Williams (yr Ysgrifenyddes) yn Arfon House, Bethel.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Lun, 10 Rhagfyr yn Festri Bethel cynhaliwyd noson i ddathlu'r Nadolig. Cafwyd nifer o eitemau gan yr aelodau, yn ddarlleniadau ac eitemau cerddorol gyda chanu carolau cynulleidfaol. Ar ddiwedd y noson cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei drefnu gan rai o'r merched.

Cyflwynwyd y noson gan y Parch Gwynfor Williams a diolchodd Geraint Elis i'r rhai drefnodd y noson, i'r aelodau a gymerodd ran ac i'r rhai fu'n gyfrifol am y lluniaeth.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Ellis Wyn, Iola
Holl staff a thrigolion
Cartref Preswyl
SANT TEILO
BETHEL
Ffôn: 01248 670353

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH
ANN A BILLY HUGHES
SIOP TREFLYN
BETHEL
Ffôn: (01248) 670106
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

CYFLENWYR PORTHIANT
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO
Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
01248 670439
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL
CEIR CYMRU
Bethel (01248) 670451
(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)
Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 11 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.
Dymuniadau gorau ar gyfer 2002 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

POB LWC. Dymuniadau gorau i Darren Lamb a Ceri ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Pob dymuniad da i Eurgain Haf a Ioan ar eu priodas hwythau Sadwrn wedi'r Nadolig, sef Rhagfyr 29.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Pob dymuniad da i Nia Porter ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ragfyr 8 ac i Aled Jones ar ei ben-blwydd yntau yn 21 ar Ragfyr 12. Pob dymuniad da i'r dyfodol i'r ddau ohonoch.

Dymuna Nia ddiolch i'w rhieni, ei theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a gafodd ar ur achlysur arbennig hwn. Yr un modd dymuna Aled ddiolch o galon i'w rieni, teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd.

GWELLHAD. Gobeithio y byddwch oll yn teimlo'n llawn hwyl dros yr Ŵyl. Ein cofion at Annette Webb a Jean Jones wedi eu arhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella i gyd.

COLLI UN ANNWYL. Ein cydymdeimlad llwyraf â Beti, Ann ac Andy ar eu profedigaeth o golli mam a mam yng nhgyfraith addfwyn ac annwyl, sef Mrs Glenys Wyn Owen, 1 Llys y Gwynt a fu farw yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont ar Dachwedd 24.

DIOLCH. Dymuna Beti ac Ann a'r teulu ddatgan eu gwerthfawrogiad diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth lem o golli mam garedig a hawddgar. Cydnabyddir yn ddiolchgar y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau, blodau a rhoddion ariannol.

Diolchir yn arbennig i Mr Merfyn Jones, Caernarfon; Mr Gwynfor Jones, Llanberis a Mrs Eiriona Williams am eu gwasanaeth trylwyr ac effeithiol.

CINIO NADOLIG YR HENOED. Diolchir i bawb a gefnogodd y gweithgareddau tuag at Ginio Nadolig yr Henoed. Fe fwynhaodd pawb eu hunain yng Ngwesty Gwydir, Betws-y-coed ar Sadwrn 8 Rhagfyr. Gobeithir trefnu trip ar eu cyfer yn yr haf.

GYRFA CHWIST BOTELI. Cynhelir Gyrfa Chwist Boteli yn Neuadd yr Eglwys nos Fawrth, 18 Rhagfyr am 7.30 yh.

CYFARCHION. Fe garai Swyddogion yr Eglwys ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Bu cyfarfodydd 2001 yn rhai hapus a bendithiol iawn a diolchir i'r athrawon a'r plant am eu ffyddlondeb. Diolchir i'r rhieni hefyd am eu cefnogaeth i holl weithgareddau'r Ysgol Sul.

Cynhelir *Sul i'r Teulu, ddydd Sul 23 Rhagfyr am 2.o'r gloch.* Cymerir rhan gan yr athrawon a'r plant a chawn stori Lleucu'r Llygoden a'r Baban Arbennig. Bydd Mr Merfyn Jones yn sgwrsio a'r plant ac fe weinyddir Cymun yr Arglwydd i'r oedolion. Mae aelodau'r Ysgol Sul yn hynod ddiolchgar o hyn er mwyn i'r plant gael gweld a deall arwyddocad y Cymun Bendigaid. Diolchir i Mrs Eirlys Jones am baratoi. Gwneir casgliad at achos da yn y gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb. Mae'n debygol y bydd Sant y Plant yn galw heibio hefyd.

COLLED. Ein Cydymdeimlad dwysaf ag Arwel a Carys, Dafydd, Olwen a Kevin, Cae Eboni ar eu colled fawr ym marwolaeth modryb agos ac annwyl iawn i Arwel.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant a'r enillwyr oedd 1. Dafydd Evans, Sycharth; 2. Elinor Jones, Brynrefail; 3. Elinor Williams, Bryn Rhydd Mawr.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch o galon i'r holl aelodau am eu cefnogaeth yn ystod 2001 gan obeithio y ceir yr un ymrwymiad yn 2002.

Cynhaliwyd Disgo (am ddim) i'r plant yn y Neuadd Gymuned, nos Wener 15 Rhagfyr o 5.15-6.45. Roedd gwobrau arbennig o dda ar y noson ynghyd â diod a chreision.

Yn dilyn am 7.00 trefnwyd Noson Wasael i'r oedolion a'r plant pryd y cafwyd eitemau gan y plant a darlleniadau, datganiad gan John Eifion ynghyd â chanu'r hen garolau. Yn dilyn cafwyd pwnsh cynnes a mins peis. Cydnabyddir yn ddiolchgar iawn gyfraniad ariannol gan Gronfa Hyrwyddo Gweithgareddau Cyngor Arfon.

Dymunir diolch i bawb ohonoch a gefnogodd yr amrywiol weithgareddau drwy gydol 201, gan obeithio y cawn eich cefnogaeth eto yn 2002.

I CHWI OLL. Dymunir Nadolig Dedwydd 2001 a Blwyddyn Newydd Dda yn 2001.

EGLWYS SANTES HELEN

GWASANAETHAU'R NADOLIG.

Sul, 23 Rhagfyr: Am 2 o'r gloch Gwasanaeth Naw Llith a Charol dan arweiniad y Parch Philip Hughes, Deon Gwlad Arfon. Yn ystod y gwasanaeth ceir eitemau gan aelodau'r Ysgol Sul.

Y Nadolig. Am 10.30 y bore Cymun Bendigaid gyda'r Parch Philip Hughes.

LLYFRAU ARIANNOL YR EGLWYS. Bydd Llyfrau Ariannol yr Eglwys yn cau ddydd Sul, 30 Rhagfyr. Diolch i bawb am eu cyfraniadau yn ystod 2001.

YR YSGOL SUL. Fel rhan o thema'r Ysgol Sul, sef Achau Iesu Grist Trwy edrych ar Goeden Jesse, aeth yr aelodau ar wibdaith i Eglwys Sant Dyfnog yn Llanrhaeadr, ger Dinbych i weld y ffenestr liw enwog o Goeden Jesse. Cafwyd hanes y ffenestr gan athrawon yr Ysgol Sul ynghyd â Mrs Jenkins Jones, Warden yr Eglwys. Ar y ffordd, galwyd ym Mharc Abergele am bicnic. Er gwaetha'r tywydd mwynhawyd y diwrnod a bu'n un cofiadwy iawn.

(Mwy o newyddion ar y dudalen sengl)

Aelodau Ysgol Sul Santes Helen, Penisarwaun, yng ngiât Eglwys Sant Dyfnog, Llanrhaeadr, Dinbych.

Aelod Ysgol Sul Santes Helen, o flaen ffenest liw Jesse yn Eglwys Sant Dyfnog.

Cyfarchion **Dylan Griffith** Y Tymor

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal, yn cynnwys:

PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr Eco

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Alwyn a Sarah**

Blodau Racca

PENISARWAUN Ffôn 870605

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

Brian a Rita Henderson
SIOP Y PENTREF
WAUNFAWR Ffôn 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol – Gwasanaeth Newydd!
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid – 'bulk' a rhydd – y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lwcus

Mae
LLEUFER, NELMA A TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650 291

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

★ O LEIAF 60 O WELYAU MEWN STOC
★ 5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
★ 40 O '3-PIECE SUITES'

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

YSTORFA TŶ NEWYDD WAUNFAWR
Ffôn 650708

★ Bwydydd o safon
★ Dewis eang o winoedd ac alcohol
★ Papurau newydd a chylchgronnau
★ Bwydydd anifeiliaid anwes
★ Swydddfa'r Post
★ Cardiau cyfarch Cymraeg a Saesneg
★ Anghenion ty

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650235

Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445

OFFER DIFFODD TÂN – masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN NHAFARN Y

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR Ffôn: 650218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Dewch gyda'r trên stêm o Gaernarfon ac aros

AM GINIO DA!

Gadael Caernarfon 1100, cyrraedd Waunfawr 1135
Gadael Waunfawr 1400, cyrraedd Caernarfon 1435
Ffoniwch y dafarn i archebu eich bwyd ymlaen llaw

A 'does dim rhaid dod ar y trên!
Cofiwch... **bob dydd Sul**...
cinio 3 chwrs arbennig £7.95
Bwyd cartref blasus o gynnyrch lleol

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i holl gyfeillion yr Antur ym mro'r Eco

Antur Waunfawr

ANTUR WAUNFAWR

01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos

NADOLIG LLAWEN **PLUM24CYM** A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

BEICS WIL

i'n holl gwsmeriaid

BEICIAU NEWYDD AC AIL LAW
• TRWSIO • CYNNAL • PARTIAU

SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR, 28 Tachwedd
Mae'r Cynghorwyr yn cefnogi'r grŵp o wirfoddolwyr sy'n barod i lansio Pwyllgor Llywio Strategaeth Gymunedol Waunfawr ar ôl cyfarfod agored llwyddiannus ar 23 Tachwedd yn y pentref. Rydym yn gobeithio y bydd pwyllgorau gwaith yn cael eu trefnu i weithio ar brosiectau arbennig, e.e. Amgylcheddol, Busnes ayb.

Rydym yn disgwyl – ers mis Mai! – pan addewidiodd Cyngor Gwynedd osod arwydd 'Peidio chwarae pêl' ger Stad Tref Eilian. Gofynnwn i blant beidio â chwarae pêl yno ond i fwynhau y cae chwarae ger y Ganolfan, sydd yn llawn o offer newydd, ac mae gôl newydd yng Nghae Chwarae Gerddi Bach.

Ie, mi fuasai cysgod law ger safle bws canol y pentref yn werth ei gael, ond ambarél fydd rhaid iddi fod am rwan tan y cawn ni wybodaeth am sefyllfa cynllunio a chostau cysgod law. Nid addewid ydi hwn, dim ond archwilio'r sefyllfa rydym ar y funud.

Mae hi'r amser yna o'r flwyddyn i orffen tocio gwrych sydd wedi gordyfu. Os oes gennych gloddiau neu wrych sydd wedi tyfu'n fawr, neu fod y gwynt wedi eu chwythu a'u plygu dros balmant cofiwch fe all y brigau fod yn beryglus i gerddwyr. Gwnewch, da chi, eich rhan i gadw ein pentref yn daclus a diogel.

Mae caniatad cynllunio wedi ei roi i adeiladu tŷ un llawr i berson anabl yn Glyn Afon, Waunfawr a chaniatad estyniadau yn Arfryn, Pengraig a Pennant, Waunfawr.

Roedd y Cynghorwyr wedi dychryn clywed am y digwyddiad o ddarganfod chwistrell/nodwydd ar fws Ysgol Syr Huw Owen i Waunfawr a Chaeathro yn ddiweddar. Mae'r mater wedi cael ei adrodd i'r Heddlu, yr Adran Addysg, y cwmni bws a'r ysgol.

Mi fydd aelodau o is-bwyllgor Mynwent ac Eiddo ein plwyf yn cyfarfod â chynghorau cymuned eraill yn fuan er mwyn trafod codi ffioedd Mynwent Betws Garmon.

Erbyn y flwyddyn newydd mi fydd y bont droed ar lwybr Dôl Erddi yn ei lle. Esgus iawn i fynd am dro i'w gweld ar ôl bwyta mwy na digon dros yr Wyl.

Dymuna'r Cynghorwyr Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl deuluoedd yr ardal. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 21 Ionawr yn y Ganolfan.

STRATEGAETH GYMUNEDOL WAUNFAWR. Agorwyd y Cyfarfod Cyhoeddus ar 23 Tachwedd 2001 yn Y Ganolfan Waunfawr gan Gynghorydd Gwynedd Gwilym O. Williams. Yn ystod yr wythnos flaenorol dosbarthwyd copïau o grynodeb *Strategaeth Gymunedol Waunfawr Community Strategy* i gartrefi'r ardal. Rhoddwyd cyflwyniad gan Carwyn Davies, Swyddog Cwlwm Gwledig Gwyrfai-Nantlle am yr adroddiad. Bydd Cwlwm Gwledig yn cynnig cymorth a chefnogaeth i adfywio economi Waunfawr trwy gydweithio â grwpiau gwirfoddol.

Bu'r cyfarfod yn llwyddiannus a chytunwyd i grŵp o ddeuddeg unigolyn o fewn y cyfarfod ynghyd â chynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned ac o Antur greu *Pwyllgor Llywio Strategaeth Gymunedol Waunfawr Community Strategy Steering Group.*

Mae'r Pwyllgor Llywio yn awyddus iawn i gymdeithasau a mudiadau fod yn rhan o ddatblygiad y strategaeth hon o'r dechrau. Felly mae gwahoddiad wedi ei estyn iddynt i anfon ac/neu benodi cynrychiolydd i gydweithio â'r Pwyllgor Llywio a'r pwyllgorau gwaith fydd o dan eu gofal.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Llywio ar nos Iau, 6 Rhagfyr 2001 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Waunfawr.

CLWB 300. Enillwyr Tachwedd oedd £40: Mr Keith Owen, 5 Tŷ Hen; £25: Dr Huw Roberts, Liverpool House; £10: Mr Gary Jones, 2 Penclip.

MERCHED Y WAWR. Cawsom noson arbennig iawn i ddathlu'r Nadolig ym mwyty Oswald's ym Mangor. Roedd y wledd yn ardderchog a'r gwmniaeth yn gynnes a hwyliog.

Enillydd cystadleuaeth 'Adnabod y Plant' oedd Alma a thîm Heulwen enillodd y cwis. Olwen, Brenda,

(parhad ar dudalen 15)

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER: WAUNFAWR (01286) 650552
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
WELDPAR
CYMRU WALES
CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720

Mae Liz a John Whitehead, Anna, Helen ac Emma
SIOP SGLODION Y PENTREF
THE VILLAGE CHIPPY
WAUNFAWR, Ffôn: 650683
yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
STERMAT
OFFER TŶ A GARDD
CAERNARFON
Ffôn: 676506
Diolch yn fawr am eich cefnogaeth
yn ystod y flwyddyn

ŠKODA
FABIA
Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r staff
MODURDY PANT Y WAEN
WAUNFAWR Ffôn: 650524

A CHOFIWCH HEFYD YR OCTAVIA GWYCH

CYFARCHION NADOLIG WAUNFAWR

Ysgol Brynrefail

Deffro

Gorweddaf yma, dydw i ddim eisiau agor fy llygaid, does arna i ddim eisiau gweld y byd, 'dw i eisiau darganfod mai breuddwyd oedd y cyfan, 'dw i eisiau agor fy llygaid a gweld fy jins wedi eu lluchio'n un cwlwm dwmbwldambal rhywle i gyfeiriad y gadair yng nghornel yr ystafell yn hytrach na'r wisg mae'n nhw wedi gorfodi i ni eu gwisgo rwan. Pyjamas ydyn nhw, alli di mo'i galw nhw yn ddim byd arall. Efallai eu bod Nhw'n meddwl eu bod nhw'n gwneud i ni deimlo'n noeth, yn fregus, i wisgo beth fyddai ein dillad nos yn yr oes o'r blaen. Ond mae'r bathodyn ar y poced frest – 'Eiddo'r Dalaith' – yn eu hatgoffa Nhw y cân nhw wneud fel y mynnont â ni, ac na ddywed neb wrthynt am beidio. 'Dw i'n gobeithio na fydd y wisg honno wedi ei phlygu yn bentwr taclus ar y bwrdd ger y drws haearn creulon.

Gobeithiaf y câf agor fy llygaid a lluchio'r llenni ar agor i mi gael gweld yr awyr las a'r mynyddoedd mawreddog yn talsythu'n falch oddi tanno. Gobeithiaf os edrychaf ar fy mraich y câf ddarllen yr amser ar fy oriawn arian – oriawn mam, yn hytrach na'r tatŵ 14367. Doedd dim angen iddynt grafu'r rhif ar fy ngarddwrn, mae o wedi ei gerfio'n annileadwy ar fy meddwl. Dyna pwy ydw i rwan. Does gen i ddim enw yma. Yn y dechrau byddai rhai o'r merched yn ceisio siarad, cipio sgwrs yn y gawod neu wrth y byrddau bwyd. Alaw. Gwawr. Mererid. Ond roedden Nhw'n gwrando. Maen Nhw'n torri dy dafod allan os wyt ti'n siarad. Fedri di ddim wedyn. Dydyn Nhw ddim hyd yn oed yn trio tewi'r sgrechfeydd. Maen nhw'n treiddio drwyddot ti, cropian fel corryn ar hyd dy asgwrn cefn. Rhybudd i ni ydy o, y gweddill ohonom ni. Dyma faint o bwer sydd ganddom ni drosoch chi. Rydym ni am ei torri chi, rhywsut, rhywbryd, a'r hiraf y cymer o yr hiraf y bydd y chwip ar dy war – fanna mae o'n brifo fwyaf, mae nhw wedi darganfod hynny o brofiad. Mae'r lledr caled yn bwrw cefn dy wddf gyntaf – mi fedra i ddioddef hynny erbyn hyn, ond wedyn mae pen y chwip yn cyrlio o gwmpas blaen dy wddf a'r cwlwm ar ei ddiwedd yn crafangu'r enawd tyner yno. Mwclis crachennog wedyn. Tydyn nhw byth yn gadael iddo wella cyn dy chwipio di eto – gwastraffu cyfle da fyddai hynny, a beth bynnag, mae'r briw yn ei gwneud hi'n rhy boenus i ti grogi dy hun – mae hyd yn oed cotwm y pyjamas yn artaith os yw'n ei gyffwrdd. Ac mae'r bariau ar y ffenestri yn gyffwrdd-sensitif, a does na ddim byd arall y medri di glymu trowsus y pyjamas ato. Mae hyd yn oed y golau wedi eu ffitio yn y welydd – dim bwlb yn hongian yn rhydd ar raff cyfleus.

Gobeithiaf fod y gwres sy'n disgyn drwy'r ffenestri ar fy moch yn wres corff. Ei phen bach cyrliog wedi ei gladdu yn fy ysgwydd, ei bod hi wedi dringo i'n gwely yn y nos a nythu rhyngom. Gobeithiaf mai ei chyrls, newydd, tywyll sy'n cosi fy ngen, nid blanced llwyd – 'Eiddo'r Dalaith' – o wlan crafog. Defaid. Cofiaf ddefaid o'r oes o'r blaen. Roedd Hi wrth ei bodd hefo nhw. Aethom ni am dro a gwelodd hi'r cymylau gwynion ar ochr y bryn. Hi yno yn ei welis a'i dyngaris bach denim – newydd o 'Mothercare' ar ei phen-blwydd yn ddwy yr wythnos cynt. A'i chrys-T streipiog, pinc a gwyrdd. Roedd hi'n hoffi pinc. Fi a Fo yn chwerthin. Fo a Fi. Fi a Fo. Roeddem ni'n hapus bryd hynny. Petaem ni ond yn gwybod pa mor hapus oeddem ni – yn ei gwylio hi'n rhedeg ar ôl y defaid. Fedra i ddim hyd yn oed meddwl ynganu ei henw. Mae o'n gwneud i fi fod eisiau crio. 'Dw i ddim am grio. Dydy crio ddim yn beth call i'w wneud. Ddim yma.

Gobeithiaf y bydd o'n sefyll ger y gwely pan agoraf fy llygaid. Gobeithiaf mai oglau'r coffi a'r 'croissants' sydd wedi fy neffro. Fe fyddai o'n gwneud hynny weithiau. Os oedd o'n deffro'n gynnar ar fore dydd Sul byddai'n mynd draw i'r becws lawr y lôn a phrynu'r 'croissants', roedden nhw'n gwerthu ffa coffi hefyd. Blasus. Ffres. (Does na ddim byd yn ffres rhagor. Os 'dan ni'n cael llysiau mae'n nhw fel rwber – gorfod glanhau'r moron rhag y blew gwynion. Yna gorfod eu bwyta nhw. Dyna sydd waethaf.) Byddai o'n dod a'r cwbl lot i mewn i'r ystafell wely ar hambwrdd ac, os oedd o'n teimlo'n rhamantus iawn, byddai'n torri rhosyn o'r ardd a'i roi rhwng y danteithion. Yna byddai'n tynnu ei esgidiau ac yn dringo yn ôl i mewn i'r gwely i ni gael gwledda. Roedd o'n teimlo'n ddrwg, bwyta yn y gwely. Byddai mam yn wallgo ers talwm, adref, cael briwsion dan y cwilt. Roedd Hi wrth ei bodd ar y borcau hynny hefyd. Mami a Dadi a Hi wedi cwtsho i fyny yn y gwely, yn mwynhau bywyd. Yn mwynhau byw.

Roeddem ni'n hapus. Hyd yn oed pan ddechreuodd y trafferth roeddem ni'n hapus.

Glas yw lliw fy mhyjamas i. Swnio fel cân plant. Glas yw lliw fy mhyjamas i. Tiwn 'Dau Gi Bach'. Lliw paent-powdwr, ych-a-fi. Piti na fedra i fynd am dro drwy'r coed. Does gen i ddim lle i golli esgid, fel y ddau gi bach 'na. Dyna ei ffefryn hi: Dau gi bach... Does na ddim byd yn y gell ond bwrdd a chadair sy'n sownd i'r llawr; toiled, drewllyd; sinc; gwely, heb glustog – ro'n i'n cysgu â phedwar clustog adref, nefoedd fasa hynny rwan, i gael suddo fy mhen i feddalrwydd melys y gobennydd. Ac, wrth gwrs, y pyjamas paent-powdwr. Lliw oer, anghynnes, clinigaidd. Roedd gen i byjamas sidan coch adref. Hi wnaeth eu dewis nhw, oherwydd fod na lun tedi bêr ar y boced, a mi brynodd O nhw i mi fel anrheg – fel'na oedd o weithiau – 'spontaneous' 'dw i'n meddwl oedd y gair yn heniaith yr Eingl. Bu farw'r iaith, mae o wedi hen farw, ac eto, rhyfedd ynte? Fel mae geiriau yn dod yn ôl atat pan dwyt ti ddim yn eu disgwyl. Mi oedd O'n hoffi teimlad y sidan.

Rhyfedd. Roeddwn i'n berson yr adeg hynny. Mi oeddwn i'n fam, yn wraig, yn garwres. Roedd gen i waith, a barn, a iaith. Rwan 'dw i'n ddim. Dim ond rhif a phyjamas glas. Eiddo'r dalaith. Glas yw lliw hunllef. Glas yw lliw y bradychwr gwleidyddol.

DEDDF 2049: NID OES GAN FERCHED YR HAWL I DDAL SWYDD O FEWN Y DALAITH NEWYDD. NID OES GANDDYNT YR HAWL I DDARLLEN.BYDD POB GŴR YN EDRYCH AR ÔL MATERION ARIANNOL POB MENYW BRIOD. NID OES GAN FENYW YR HAWL I FEDDWL MEWN MAN CYHOEDDUS.

Darllen wnes i, ond doedd gen i ddim hawl. I wneud pethau'n waeth darllen llyfr am gyfreithiau'r oes o'r blaen wnes i. Doedd gen i ddim hawl. Does ganddom ni ddim hawl i ddarllen dim a allai effeithio ar ein barn wleidyddol ni. Dyna pam na chawn ni ddim siarad yma – rhag ofn i ni 'felltithio' (eu gair Nhw) craill â'n barn. Doeddwn i ddim i fod i ddarllen o gwbl.

Dyna pam 'dw i wedi cofio fy rhif, dyna pam y byddaf yn darllen y geiriau ar y blanced bob nos. 'Dw i'n trio cofio siâp y llythrennau. Mi o'n i wrth fy modd hefo geiriau. Yn yr oes o'r blaen. Roeddwn i'n hoffi eu rowlio dros fy nhafod, eu teimlo nhw yn fy ngheg. Clywed eu sŵn. Blasu eu rhin. Cyffwrdd eu gwead. Mae'n rhaid i mi gofio sut oedd o'n teimlo. Geiriau yn llithro dros fy ngwefusau. 'Dw i ddim eisiau anghofio. Dyma fi, a fy nhipyn ymdrech i fod yn rebel.

Fel yr arferent ddweud. Mae popeth yn berthnasol. 'Everything is relevant'.

A phan 'dw i'n trio cofio geiriau fedra i ddim anwybyddu'r ffaith fy mod i yn eu anghofio nhw. Fo a Hi. Dydy eu wynebau nhw ddim mor glir bellach. Petawn i ond yn gwybod, fe fyddwn i wedi edrych arnyn nhw fwy, ceisio cofio pob manylyn, eu stampio nhw ar fy nghof, ond wnes i ddim. Ac mi fydd Hi wedi newid beth bynnag, mi fydd Hi'n hŷn, yn lot hŷn, 'dw i'n colli cownt, 'dw i'n anghofio fod bywyd yn mynd yn ei flaen y tu allan. Dydy'r byd ddim yn stopio o'm herwydd i.

Sgrech y gloch.

Fel ei sgrechian hi yn gwylio mami yn cael ei dwyn oddi yno gan y milwyr, mewn du.

'Amser deffro – mae'n hanner wedi chwech.'

Gweiddi, fel ei weiddi O ar y milwyr, mewn du, i'm gollwng yn rhydd.

Sgrech y gloch eto.

Fel fy sgrechian i wedi iddyn nhw saethu ei goes i'w stopio rhag dod yn agosach.

"Dw i'n dy garu di,' Wrtho ef rhwng y dagrau.

'Mae mami'n dy garu di,' wrthi Hi. Cofiaf ei dagrau Hi. 'Bydd mami'n ôl cyn bo hir, cariad, bydd yn hogan ddewr.'

Celwyd noeth. Es i byth yn ôl.

Agor fy llygaid.

Dim, ond y gadair, a'r bwrdd, a'r pyjamas paent-powdwr glas.

Nora Ostler Bl.13
Enillydd y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail a Bethel

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Robin Goch Gwyn

Robin goch wedi'i wynnu ag eira clywaf un ohonoch yn dweud! Na, nid felly'n hollol chwaith! Yn wir, fel hyn y dywed un linell tra adnabyddus: 'Gwyn eu byd yr adar gwylltion' ac, ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn (a Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd!) bwriadaf loetran, os gellir ei alw'n hynny, ymhlith yr adar gwynion! Ond nid alarch mwy na cholomen wen sydd gennyf mewn golwg!

At hyn rydwyf yn dyfod. Yn y flwyddyn 1999, lled-debygaf, ymddangosodd Robin goch, un gwyn ran lliw ei blu, ym mhentref Llanberis. Ni welais mohono. Eisiau llonydd oedd arno ac felly gadewais iddo, a chwbl segur fu'r camera!

Yn ystod tymor yr haf yr un flwyddyn yn union, gwelais ddau jac do, a'r rheini cyn ddued â glo ran lliw eu plu, yn cadw cwmni i jac do arall, a oedd yn rhannol wyn, hynny ydyw, roedd clytiau duon ganddo, a'r gweddill ohono cyn wyned â'r eira. Ymhlith y biniau sbwriel yng nghefn 'Tsieffi Bach' chwedl pobol Cynarfon, sef 'Little Chef' Penmaenmawr, yr oedd y jac do rhannol wyn hwnnw.

Mai 7, y flwyddyn 2000, clywais fod ffesant gwyn ei liw yn y caeau ger Bethel, Arfon. Er cerdded a cherdded, a chadw gwyliadwriaeth lled fanwl, a hynny am wsnosau, ni welais yr aderyn nodedig hwn! Teneuais wadna' fy sgidia, – a dyna'r oll, tra'n trampio o gwmpas. Ta waeth!

Dioddef oedd yr adar a enwyd uchod oddi wrth y cyflwr *albino*, a ddigwydd hefyd ymhlith plant dynion, anifeiliaid, ymlusgiaid a, hyd yn oed, gregyn, a gall fodoli mewn un teulu, o'r naill genhedlaeth i'r llall. Ym myd yr adar y mae T.G. Walker yn *Y Cymro* mis Awst 1949 yn cyfeirio at frain hefo clytiau o blu gwynion ar eu cyrff, a mwyalchod gwynion. Ebe'r diweddar adarydd o Henblas, Ynys Môn: *Brain o bob math a mwyalchod yw'r adar amlaf dan yr aflwydd... Nid oes liw du yng nghannwyll eu llygaid. Mae'r lliw du bob amser yn cadw goleuni draw.* Golyga hynny bod goleuni cryf yn effeithio'n ddybryd ar olwg aderyn albinaidd. Ni all ddygymod â'r goleuni, a bydd yn chwilio am gysgod gwrych neu fur. Caiff ni'n anodd i chwilio am fwyd. Nid yw ei fywyd yn un hir o gwbl, ond os oes gennych dystiolaeth i'r gwrthwyneb yna beth am daro gair atom?

Yn y byd pluog dyma rai enghraifftiau eraill o'r *albino* – 1904: Drudwen glaerwen ym Mangor; 1909: Robin goch gwyn yng ngerddi trigolion y Drenewydd, Powys; 1949: Asgell fraith a Nico gwyn eu plu yn Llangefni, Ynys Môn; 1999: Robin goch gwyn yn Llanberis.

Danfonwch air i'r Eco os oes gennych ragor o enghreifftiau.

Anodd i aderyn sy'n dioddef o'r cyflwr *albino* guddio rhag ei elynion. Y mae'i wynder amlwg yn ennyn sylw. Felly hefyd yn hanes y Robin goch gwyn a ymddangosodd ym mhentref Llanberis yn y flwyddyn 1999. Ys gwn i'r wir beth a ddigwyddodd iddo?

CANOLFAN DINORWIG

Cyfarfod Cyhoeddus

(Cadeirydd: Cynghorydd Len Jones)

i drafod dyfodol y ganolfan ac ethol pwyllgor ar gyfer 2002

Nos Fercher, 9 Ionawr 2002

7.00 o'r gloch

Croeso cynnes iawn i holl drigolion y pentref.

Ysgol Dolbadarn

Dosbarth Mrs Williams efo'r bocsus esgidiau llawn anrhegion.

Rygarug

Ar ôl tymor cyntaf llwyddiannus iawn a orffennodd gyda pherfformiad yn Ysgol Brynrefail o 'Seren Newydd' mae aelodau Rygarug yn edrych ymlaen at dymor newydd o ddigwyddiadau.

Bydd Tymor y Gwanwyn yn cael ei lansio gyda Gweithdy Dawns ar ddydd Sadwrn, 12 Ionawr yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanberis. Cynhelir tri sesiwn:

Grŵp 1: Oedolion (dros 15 oed) yn canolbwyntio ar ddawnsio modern 'jazz stryd' (street jazz);

Grŵp 2: 11-14 oed – cyfle i arbrofi efo dawnsio modern/disgo;

Grŵp 3: Cynradd – mwy o ddawnsio modern/disgo.

Am fwy o fanylion ac i archebu lle yn y gweithdy ffoniwch Audra Roberts ar (01286) 675766.

Bydd y sesiynau drama, cerdd, dawns, colur, amlgyfrwng a sgriptio yn ailgychwyn ar 15, 16 a 17 Ionawr. Mae croeso i aelodau newydd – cost ymaelodi yw £1 am flwyddyn ac mae ffurflenni ymaelodi i'w cael drwy ffonio Aurda Roberts (01286) 675766.

Hoffai Rygarug ddiolch i'r holl rieni a pherthnasau sydd wedi rhoi eu hamser i gynorthwyo gyda'r fenter yn ystod y tymor diwethaf.

Ar Nos fel Hon

(Alaw: O Little Town of Bethlehem)

Mae'r lloer yn codi'n araf
Tros ysgwydd moel y bryn,
A'r sêr a wena'n siriol
Mewn mentyll arian, gwyn.
Ar nos fel hon daeth yntau
O entrych nef i lawr,
Y Baban Bach anwylaf
O freichiau'r Brenin Mawr.

Y teithiwr heno'n unig
Ar noson dawel, glir,
Yn teimlo fod ei gyrchfan
Ymhell, a'i daith mor hir.
Ar nos fel hon y gwelwyd
Y doethion ar eu taith,
Yn canfod cu Gwarcdwr
Mewn stabl llwm a llaith.

Yn dyner y mae'r awel
Yn siglo cangau'r coed;
A llithra'r ffrwd yn esmwyth
I'r môr i gadw oed.
Ar nos fel hon y gwelwyd
Un bach ar wely gwair,
Yn cael ei suo'i gysgu
Gan swyn hwiangredd Mair.

Mae cân yr eos peraidd
Fel gwlith, yn dod o'r nen;
A'r ddaear sy'n cofleidio
Y perlau ar ei phen.
Ar nos fel hon caed anthem
Angylion gwynion glân,
Gan synnu'r greadigaeth
Â byrdwn per eu cân.

Mae'r byd yn dal i ddisgwyl
O dan yr wybren dlos;
Yn disgwyl am oleuni
I dorri ar y nos.
Ar nos fel hon, O! bydded
I ddeiliaid gwael y llawr
I droedio tua'r stabl
I drem y Golau Mawr.

John H. Hughes
Llanberis

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

70 OED. Pen-blwydd hapus i Meirion Pritchard a oedd yn 70 ar y 10fed o Ragfyr! Gobeithio i chi gael diwrnod i'w gofio!

CYNHALIWYD 'noson i'r genod' yn y dafarn nos lau, 13 Rhagfyr ble cafwyd arddangosfa coginio 'cacen arbennig' gan Ms Kate Thoms, stondin gacennau a raffl. Cyflwynwyd elw o £240 i Fenter Fachwen. Enillydd yr hamper oedd Phil, Ty'n Coed; Llinos enillodd y gacen Dolig a Shirley enillodd y tedi.

DIOLCH. Dymuna Pete ac Amanda Welsby ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu merch Erin Paige.

GWELLHAD BUAN i Sioned Cumberton, Ty'n Llan, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

TY'N LLAN. Trefnir noson o ganu carolau gyda'r Parch Philip Hughes a'i gitar a Mr Gareth Jones a'i biano nos lau yr 20fed o Ragfyr! Dewch i ymuno yn hwyl y Nadolig – cyflwynir elw'r noson at goffrau'r eglwys.

PRIODASAU.

Llongyfarchiadau i Sandra. ('Dolwen' gynt) a Jeff ar achlysur eu priodas ar y 17eg o Dachwedd. Pob hapusrwydd i'r ddau ohonoch yn y dyfodol. Dymuniadau gorau i Tammi a David, 2 Tan y Bryn, a fydd yn priodi yn Awstria yn ystod cyfnod y Nadolig.

LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i John Ellis, 5 Nant Ffynnon ar basio ei arholiadau pensaerniaeth.

GWELLA. Rydym yn falch o glywed fod Mrs Ann Jones, Glendale, wedi gwella ar ôl gwaeledd yn ddiweddar.

DYMUNA Mrs Myfanwy Thomas, Bron Wyddfa Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

DYMUNA Jeni Williams Pennant, anfon cyfarchion Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cyfeillion a chymdogion, gan na fydd yn anfon cardiau eleni. Hoffa hefyd ddiolch o waelod calon am bob arwydd o garedigrwydd gan y teulu, ffrindiau a chymdogion tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch arbenig iawn i staff Ward Ffrancon am y gofal a dderbyniodd yn ystod yr wythnosau diweddar.

PARTI PENTRA. Cafwyd noson hwyliog iawn ar nos Wener, 7 Rhagfyr pan gynhaliwyd parti Nadolig y pentref yn Ty'n Llan. Daeth Siôn Corn a llond sach o anrhegion i'r plant (bach a mawr!) a chafwyd gwledd arbennig yn y Caban. Diolch i Anne, Jim a'r staff am y bwyd blasus a'r croeso cynnes, i Injan Dân gorsaf Llanberis; i Siôn Corn! ac i aelodau'r pwyllgor am drefnu'r noson.

CROESO adref i Mrs Jeni Williams, Pennant a fu yn yr ysbyty'n ddiweddar. Brysiwch wella.

Rhai o 'blant Nant' yn disgwyl yn eiddgar am Siôn Corn ym mharti 'Dolig y pentref.

Newyddion Penisarwaun *(parhad)*

YSGOL GYMUNED PENISARWAUN

Cynhaliwyd Ffair Lyfrau yn y neuadd gymunedol yn ddiweddar gyda genethod Bl.6 yn edrych ar ôl bwrdd yn llawn o wahanol bethau oedd ar werth, er budd Apêl *Blue Peter* i godi arian tuag at yr henoed. Trwy waith caled a hwyliog y genod, fe gasglwyd £70 tuag at yr apêl. Da iawn chi genod.

Ar nos Lun, 10 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr ysgol dan ofal Miss Einir Griffith. Roedd y neuadd yn orlawn o bobl yn gwylio pob un o blant yr ysgol yn cymryd rhan. Casglwyd dros £193 tuag at gronfa'r ysgol ar y diwedd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Hoffwn ddiolch yn arbennig i holl staff yr ysgol am eu gwaith caled a'u hymroddiad a'u cefnogaeth unwaith yn rhagor, ac yn wir ar hyd y flwyddyn. Fel arfer fe ragorodd y plant ar y noson. Cyn i ni gau fe fydd Bl.5 a 6 yn rhoi detholiad byr o'r gwasanaeth yn y Cartref.

Dymunwn yn dda i Miss Bright, Miss Evans a Miss Humphreys sydd yn awr yn dod i ddiwedd eu hymarfer dysgu. Bu'n bleser gweithio gyda'r tair ohonynt a dymunwn y gorau iddynt ar gyfer y dyfodol.

Gair i'ch atgoffa fod yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ddydd Mawrth, 8 Ionawr.

Dymuniadau gorau i bob un ohonoch oddi wrth pawb yn yr ysgol.

Darlun o'r Nadolig

Seren yn disgleirio,
Doethion yn ei gwylio;
Hwythau y bugeiliaid,
Gwylio wnant eu defaid.

Cân yr engyl swynol,
Anthem y llu nefol;
Siriol wên y Baban
Geir mewn preseb bychan.

Clychau tros yr awel,
Su y noson dawel;
Ysgafn fref yr oenig –
Heddwch bendigedig.

Mam a thad yn gwylio;
Byd yn disgwyl wrtho;
Mintai â'i anrhegion,
Llawen lef cyfarchion.

Galw mae y clychau,
Deuwch, fe awn ninnau;
Gwyddom y cawn groeso,
Cariad Duw sydd ganddo.

John H. Hughes
Llanberis

Clwb Eryri

Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Eryri yn y Victoria nos Wener, 7 Rhagfyr. Yn dilyn gair o groeso gan y Llywydd, Dei Tomos, croesawyd Geraint Lloyd Owen, Stanley Owen a Bert Parry, wedi cyfnod o waeledd, yn ôl i'r gorlan. Llongyfarchwyd yr aelod newydd, Eifion Jones a'i wraig Gath ar enedigaeth eu mab bach, Iwan Eifion, yn ystod yr wythnos.

Roedd cryn edrych ymlaen at gyfraniad Bardd y noson, Wyre Thomas – ni siomwyd yr aelodau. Canodd y Bardd gerdd i Lywydd y noson, yr hanesydd Edgar Parry gan orffen gyda'r llinell: 'Heno pa ŵr sydd i guro Parry?' Disgrifiodd siaradwr y noson, Ifan Parry, fel 'Y gwladwr bywiog ffraeth'.

Trosglwyddwyd y gweithgareddau i Lywydd y Noson ac aeth Edgar ymlaen i gyflwyno'r siaradwr fel arloeswr ym maes addysg, yn arbennig trwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn perthynas â pharatoi a chyhoeddi defnyddiau cyfrwng Cymraeg.

Testun Ifan oedd 'Troeon Bywyd' a chafwyd amlinelliad ganddo o'i fywyd cynnar yn Garn Dolbenmawn a'i brofiad o'r byd addysg yn Ysgol Dyffryn Nantlle. Yn amlwg nid oedd y newidiadau diweddar yn y maes hwnnw at ddant Ifan. Roedd hanes antics 'yr hogyn bach o Garn' yn yr awyrlu yn ddifyr iawn ac yn ddadlennol!

Diddorol tu hwnt oedd hanes datblygiad a sefydlu cwmni lleol Alpha Beta gan Ifan a'i gyfeillion, Osborn Jones a'r diweddar Gwyn Jones – mab R.E. Jones, cyn aelod o'r Clwb. Cwmni arloesol yn arbenigo mewn cynhyrchu offer electroneg ar gyfer y byd meddygol oedd Alpha Beta. Yn ddiweddarach daeth Alpha Beta yn Gwmni ADC a ddaeth wedyn yn rhan o gwmni Euro DPC. Diddorol a dadlennol oedd gwrando ar Ifan yn olrhain hanes sefydlu'r cwmni hwnnw yn Llanberis.

Wedi trafodaeth fywiog a difyr o'r llawr, diolchwyd i'r siaradwr yn briodol iawn gan Alwyn Evans.

Dymunwyd cyfarchion arferol y tymor i'r aelodau gan y Llywydd.

Cyhoeddwyd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Wener, 4 Ionawr. Y siaradwr fydd Geraint Lloyd Owen gyda Stanley Owen yn llywyddu.

SEFYDLIAD COFFA LLANRUG

Gwahoddir ceisiadau am berson i gadw'r adeilad yn lân.

Telerau:

Oriau – 7 awr yr wythnos.

Tâl: £4.80 yr awr.

Cysylltwch â:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant 673515

neu

Meurig Parry, 4 Gwelfynydd 674497

Casglu Arian at Barti Nadolig Ysgol Pendalar

Mrs Avril Jones o gwmni Abbey National (cangen Caernarfon) yn cyflwyno siec o £250.00 i Carys Jones tuag at drefniadau'r parti Nadolig y bydd y 6ed dosbarth yn ei drefnu'n flynyddol ar gyfer disgyblion Ysgol Pendalar. Hefyd yn y llun mae Mr Eifion Jones, y prifathro, Ffion Owen, Sarah Owen ac Iwan Williams.

Yn y llun mae Stuart Williams, Simon Guy, Mathew Guy, Kate Beard, Beverley Taylor a Gethin Morgan. Eleni eto mae Mathew wedi trefnu gweithgareddau i helpu tuag at drefniadau'r 6ed dosbarth. Tybir iddo godi tua £250.00 neu fwy ac mae'r 6ed yn hynod ddiolchgar i'r criw am eu hymdrechion.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Prysudeb mawr drwy'r dydd yn meddwl am ffyrdd i godi arian. Gêm bêl-droed rhwng y staff a bechgyn y chweched dosbarth gyda ambell 'seren' yn disgleirio ond y bechgyn yn mynd â hi 2–1 wedi i Mr Reg Roberts fethu penalti!

Taflu sbwng gwlyb at ddisgyblion blwyddyn 9 a thalu am y fraint! Hwyl fawr wrth weld timau o athrawon yn cael gêm o 'Twister'. Eraill yn brysur yn llenwi amlinelliad o 'Pudsey' gydag arian a'r arian yn llifo i mewn.

Aeth criw o flwyddyn 11, sy'n astudio Arlwyo TGAU ati i goginio bara brith a chacennau ac andros o gacen siocled fawr fel gwobr raffl. Llwyddiant mawr oedd y stondin yma, a chasglwyd £103 tuag at yr ymgyrch.

Hoffai Emma Williams, Emma Parry, Sami, Melissa, Adelle, Heledd, Cenin a Bethan ddiolch yn fawr iawn i bawb am y gefnogaeth a gawsant.

Cawsom ddiwrnod di-wisg ysgol a'r plant yn talu am y fraint, a hyd yn oed ambell un o'r athrawon wedi gwisgo gwisg ysgol, yn edrych yn ôl mae'n debyg.

Distaw iawn oedd rhai dosbarthiadau gan fod rhai disgyblion yn cael eu noddi i beidio siarad trwy'r dydd. Llifodd yr arian i mewn a chawsom gyfanswm anrhydeddus o £950. Diolch i bawb am gefnogi'r fenter a rhoi mor hael unwaith eto.

Diolch

Dymuna'r Prifathro a'i wraig, Eifion a Kath Jones, ddiolch yn fawr iawn i'r holl deulu a ffrindiau am eu caredigrwydd ers genedigaeth eu mab, Iwan Eifion ar 2 Rhagfyr.

Twrnament Hoci Gogledd Gwynedd dan 14

Tîm hoci dan 14 yr ysgol

Dydd Llun, 4 Rhagfyr, chwaraeodd tîm hoci blwyddyn 9 Ysgol Brynrefail dwrnament yn erbyn ysgolion Gwynedd. Dechreuodd y gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Friars yn dda iawn gyda phawb yn cydweithio gyda'i gilydd yn arwain at Sophie Gordon yn sgorio ein gôl gyntaf. Brwydrodd Ysgol Friars yn ôl ond roedd Brynrefs yn benderfynol o beidio gadael iddynt sgorio. Yn yr ail hanner sgoriodd Laura Evans a Ffion Haf i wneud y sgôr derfynol yn 3-0 i Brynrefs!

Chwaraeom yr ail gêm yn erbyn Ysgol Tryfan. Roedd y ddau dîm yn amddiffyn yn gryf, felly nid oedd unrhyw gôl wedi ei sgorio yn yr hanner cyntaf. Roedd pawb yn chwarae'n dda iawn ac yn dyd-dynnu unwaith eto a'r sgôr derfynol oedd 0-0.

Y gêm olaf oedd yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen. Gyda blaenwyr Brynrefs yn brwydro'n gryf, llwyddwyd i gael gôl unwaith eto. Yn yr ail hanner roedd Syr Hugh yn dechrau brwydro'n ôl ond ddim yn ddigon cryf, gan i Frynrefs sgorio gôl arall i wneud y sgôr derfynol yn 2-1 i Frynrefail. Gan ein bod wedi ennill y twrnament yma cawsom fynd ymlaen i'r ail rownd yn erbyn y siroedd eraill yng Ngogledd Cymru.

Brynrefail yn Cynrychioli Gogledd Gwynedd yn Nhwrnament Eryri

Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr dechreuodd yr ail rownd yn dda iawn i Frynrefs, gyda gêm yn erbyn Ysgol Bodedern, a Ffion Haf yn sgorio 10 munud i mewn i'r gêm. Roedd Brynrefail yn chwarae yn gryfach na'r diwrnod cynt ond ddim yn ddigon cryf i gael gôl arall. Felly y sgôr derfyno oedd 1-0.

Cawsom gêm arall i ddilyn ond dim cystal â'r lleill gan fod Abergele yn chwarae yn gryf iawn. Daliodd amddiffynwyr Brynrefs ati i beidio gadael y bêl i gefn y gôl. Ni sgoriodd neb yn y gêm hon felly cyfartal oedd hi.

Yn erbyn Rydele roedd y gêm olaf, ac yn anffodus ni sgoriwyd gôl gan neb o'r tîm. Roedd pawb yn cydweithio'n dda iawn ac yn amddiffyn yn gryf yn y cefn ond sgoriodd Rydele i wneud y sgôr terfynol yn 2-0. Trydydd oedd ein safle yn y diwedd. Daliwch ati, Brynrefs! A diolch i Mrs R. Ingram am ein hyfforddi.

Laura Evans, Sioned Jones a Ffion Th. Jones

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail Enillwyr Clwb Cant

Hydref 2001
1. Ms Kim Lowther, 20 Nant y Glyn, Llanrug; 2. Mrs Gwyneth Thomas, Gwelfor, Tan y Coed; 3. Mrs Yvonne Roberts, Bryn Awel, Llanddaniel.

Tachwedd 2001
1. Mrs Grace Williams, 2 Afon Rhos, Llanrug; 2. Mrs Morfudd Thomas, Cilfynydd, Bethel; 3. Mrs June Owen, Cefn Ffrwd, Bethel.

Rhagfyr 2001
1. Mrs M.B. Williams, 14 Bryn Moelyn, Llanrug; 2. Mrs Janet Scase, 9 Stad Minffordd, Llanrug; 3. Mrs Gwenda Roberts, Lleifior, Llanrug.

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: DANNY a NERYS ROBERTS
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio

★ *Porches*
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Richard, Meirwen a'r staff

SPAR

Y SGWÂR, LLANRUG

Ffôn: (01286) 672790

AR AGOR BOB DIWRNOD HEBLAW DYDD NADOLIG

GAREJ HAFOD

PEUGEOT

LLANRUG Ffôn: 673372

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth John Trevor a'i deulu, a'r holl staff

PEUGEOT 307

YN MYND O NERTH I NERTH!

CAR EWROPEAIDD Y FLWYDDYN – 2002

ENILLYDD GWOBR DIOGELWCH 4★

PROFION *EURONCAP*

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

FFAIR NADOLIG. Do, fe alwodd Siôn Corn yn ffair Nadolig yr ysgol a dyna noson brysur a gafodd. Bu pob plentyn bach yn ei weld gyda'i restr anrhegion. Dymuna'r Pwyllgor Rhieni ddiolch i bawb fu'n paratoi'r noson ac i'r rhai a gefnogodd.

CYNGHERDDAU NADOLIG. Bu Neuadd yr Ysgol a Neuadd Ysgol Brynrefail yn orlawn ar gyfer perfformiadau y cyngherddau Nadolig, ac chafodd neb ei siomi. Gwnaeth pob plentyn ei waith yn arbennig o dda.

BORE O DDRAMA. Roedd ymateb y plant i berfformiad cwmni 'Northern Scottish Theatr' o *Peter and the Wolf* yn dangos yn union y mwynhad a gawsant o'u gwylio. Rwy'n siwr mai 'brysiwch yma eto,' yw'r neges i'r cwmni.

RHAGLEN DELEDU. Yn ystod gŵyl y Nadolig bydd Efa Dyfan, Blwyddyn 5, yn ymddangos ar y teledu yn y ddrama 'Eldra'. Cofiwch wylio.

PANTOMEIM. Yn ystod wythnos olaf y tymor aeth yr holl ysgol i Theatr Gwynedd i weld y Pantomeim 'Ble mae dy gargo, Sbargo?' Mwynhaodd pob un y perfformiad yn fawr iawn.

CINIO DOLIG. Wedi bwyta cinio Dolig dydd Mercher roedd yn anodd iawn dawnsio yn y Disgo yn ystod y prynhawn, ond dyna y bu pob un yn ei wneud.

DIOLCH. Ar ddiwedd blwyddyn arall dymunwn ddiolch i'r rhieni a'r cyfeillion am y gefnogaeth rydym wedi ei dderbyn i holl weithgareddau'r ysgol. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Bydd y tymor nesaf yn cychwyn ddydd Mawrth, 8 Ionawr i'r plant gan fod yr athrawon yn cael diwrnod o Hyfforddiant Mewn Swydd. ar y dydd Llun.

PARTI CLYCHAU'R GRUG. Mae'r aelodau yn cael seibiant haeddiannol tan ddiwedd mis Ionawr ar ôl cyfnod prysur iawn ers mis Medi.

Dechreuwyd eu gweithgareddau gyda chyngerdd wedi'i drefnu gan yr Eglwys, Llanrug lle mae Heulwen Parry, y cyfeilydd, yn aelod. Yn ystod mis Hydref bu'r merched yn diddanu aelodau o Gymdeithas Berea, Bangor; Cymdeithas Lenyddol Waunfawr ac aelodau a chyfeillion o Ferched y Wawr, Cyffordd Llandudno. Ar ddechrau Tachwedd teithio i Lanfairfechan a wnaethant i ddiddanu y Gymdeithas yng nghapel yr Anibynnwyr. Ar nifer o weithiau maent wedi diddanu'r ymwelwyr yng Ngwesty Victoria Llanberis ac yn cael croeso gwresog yno bob tro. I gloi'r tymor bu'r merched yn canu noson Nadoligaidd i aelodau Cymdeithas Lenyddol ym Montnewydd yn ddiweddar.

Penderfynwyd ar ddechrau'r tymor i gefnogi achosion lleol gyda'r canlyniad bod pump o Eisteddfodau lleol wedi derbyn rhoddion ariannol tuag at eu coffrau oddi wrth y côr, sef Bethel, Bontnewydd, Deiniolen, Llanrug a Phenisarwaun. Dymuna'r aelodau Nadolig Llawen i bawb.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Alwyn Williams, Llwyfor a'r teulu ar farwolaeth nith iddo yng Nghanada. Flwyddyn yn ôl ymwelodd â Llanrug i gyfarfod aelodau o'r teulu ac i weld y cartref yn Nhyddyn Rhuddallt.

MARWOLAETH. O fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd bu farw Mrs G.E. Ellis a'i mab, John Ellis – gynt o Treflan, Pothrhythallt – yn Cumbria. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Arthur Ellis a'r teulu yn y Waunfawr.

DYMUNWN Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

DYMUNA Mrs Bet Jones, Lyndale ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati yn ddiweddar, yn enwedig y teulu am eu gofal.

Nadolig Hapus i bawb o'i ffrindiau ac i Glwb yr Henoed, Caernarfon.

DYMUNA Mrs Jennie Parry, 21 Hafan Elan ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd, y cardiau a'r blodau a dderbyniodd tra oedd yn yr ysbyty ac wedi dod adref.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Mrs G. Kirkpatrick, 1 Rhos Rug Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

DYMUNIADAU GORAU i Wayne Matthew Kift, 15 Talybont sydd wedi cael dod adref ar ôl treulio misoedd yn ysbytai Rhydychen a Bangor. Rydym yn falch iawn dy fod yn gwella Wayne a dymunwn Nadolig hapus i ti a chroeso adref.

PRIODAS. Priodwyd Lowri Angharad, Bedw Gwynion â Siôn Gwyn dydd Sadwrn, 8 Rhagfyr yng Nghapel y Rhos. Byddant yn byw yng Nghaernarfon. Anfonwn ein dymuniadau gorau i chi a phob hapusrwydd.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Gordon Davies a'r teulu, Bryn Moelyn, sydd wedi colli ei fam ym Mangor.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr yn y Ganolfan Gymunedol ar 13 Tachwedd. Llongyfarchwyd Menna ar ddod yn nain am y chweched tro gyda ŵyr y tro hwn, sef Morus. Diolchwyd i Pat am gynllunio a phrintio'r rhaglen.

Estynnodd Megan, y Llywydd, groeso cynnes i Rhiannon Roberts, Gaeathro (Rhiannon James gynt, o Lanrug). Testun Rhiannon oedd Addurniadau Nadolig a dangosodd i ni nifer o addurniadau cywrain a chelfydd wedi eu gwnio â llaw a hefyd dewis o gardiau Nadolig wedi eu gwneud â llaw. Nid oedd am i'r aelodau eistedd yn ôl a gwrando felly bu'n rhoi cyfarwyddiadau ar sut i wneud addurn a bu pawb yn brysur iawn, ond, ar ddiwedd y noson, roedd gennym i gyd belen addurniedig i fynd adref i'w gosod ar goeden Nadolig.

Diolchodd Julie i Rhiannon am ei chyflwyniad. Diolchwyd i Mary, Carrie, Megan a Sheila am y te gan Bethanne.

DYMUNA Bethanne a'r teulu, Disgwylfa ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar yr achlysur o golli mam a mamgu.

PLAID CYMRU. Nos Fercher, 21 Tachwedd, Irfon Jones o'r BBC oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod Cangen Llanrug a'r Cylch yng Nghanolfan Penisarwaun. Mewn sgwrs ddifyr soniodd am ei fywyd prysur a diddorol fel gohebydd ar Radio Cymru, ac fel cynhyrchydd a chyfarwyddwr cwmni teledu. Diolchwyd iddo gan Phyllis Ellis, y Cadeirydd.

Cynhaliwyd cyfarfod difyr nos Fercher, 12 Rhagfyr pan gafwyd paned a sgwrs yn Sefydliad Coffa Llanrug i wobrwyo enillydd cwis 'Adnabod yr Alawon' a baratowyd gan Olwen Llywelyn. Aeth y wobr gyntaf i Walter Williams a gafodd farciau llawn, gyda Mona Richards yn ail, ac Arwel Jones yn drydydd. Llongyfarchiadau i'r tri ac hefyd i Meirwen Lloyd, a enillodd raffl y noson.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 16 Ionawr yn y Sefydliad Coffa am 7.30. Dafydd Iwan fydd y siaradwr gwadd, a bydd yn sôn am 'Cyngor Gwynedd': Y Ffordd Ymlaen'. Croeso cynnes i bawb.

Enillwyr y Clwb Cant oedd:
Awst: 1. Gareth Williams; 2. Olwen Llywelyn. Medi: 1. Sheila Williams; 2. Carrie Owen; Hydref: 1. Vera Williams; 2. Geraint Jones. Tachwedd: 1. Valmai Williams; 2. Gwyndaf Hughes.

MERCHED Y WAWR. Estynnodd y Llywydd, Megan Roberts, groeso i bawb i'r cyfarfod a gynhaliwyd yn y Ganolfan Gymunedol ar nos Fawrth, 11 Rhagfyr.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carys Wynne a Mrs W.A. Jones. Llongyfarchwyd Julie ar ennill y drydedd wobr am gynllunio cerdyn Nadolig yn Sioe Aeaf Llanelwedd. Llongyfarchwyd Mrs Whiteside Thomas ar ddod yn hen nain ac Eirianwen ar ddod yn nain am yr ail dro. Cydymdeimlwyd â Bethanne ar golli ei mam.

Dathlu'r Nadolig oedd y thema a bu côr y gangen yn canu carolau'r plygain. Mwynhaodd pawb bwffe ardderchog, wedi ei baratoi gan yr aelodau ac, ar ôl bwyta, bu'r côr yn canu carolau eraill. Enillwyd y raffl gan Myfanwy. Dymunodd Megan Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl aelodau.

Bydd Harri Parri, Caernarfon yn rhoi portread o Elen Rogers Jones yn ein cyfarfod nesaf ar 8 Ionawr.

Waunfawr- *(parhad o dudalen 11)*

Heulwen a Rhian oedd enillwyr y gwahanol rafflau.

Edrychir ymlaen yn awr am y cyfarfod nesaf ar nos Iau, 24 Ionawr 2001 pryd y daw Eric a Beryl Jones atom i sôn am 'Egwyl ar Ynys Enlli'.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Lun, 10 Rhagfyr pan y caed sgwrs gan Twm Elias ar rai o hen gymeriadau pentref ei fagwraeth, Clynnog. Y llywydd oedd Rol Williams ac ef hefyd dalodd y diolchiadau. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 14 Ionawr pan y daw William Owen, Borthygest i ddarlithio ar y testun 'Paham y rhoddaist i mi'r tristwch hwn?' Er geiriad y testun sgwrs hwyliog fydd ganddo, ac fe gofir y mwynhad a gafwyd o wrando ar William Owen y tro diwethaf y bu gyda ni yn y Gymdeithas. Y llywydd fydd R. Gwynn Davies.

LLONGYFARCHIADAU

GENEDIGAETH. Llongyfarchion i Helen a Tony Brown, 2 Bryn Golau ar enedigaeth merch fach, Enlli Wyn, chwaer fach newydd i Rosie, Shaun a Nia.

DYWEDDIO. Llongyfarchiadau i Christopher Peters, Ty'n Cae Newydd ar ei ddyweddiad â Iola Wyn Thomas o Ben-y-groes.

ADREF O"R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbyty i Mr O.T. Jones, Bryn Gwenallt; Mr Paul Evans, Rhoslyn; Mr Alun Mabon Williams, Stad Bro Waun aca Emyr Jones, Bryn Meredydd. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn gwella'n eitha erbyn y Nadolig.

Anfonwn ein cofion at Mrs Rhiain Jones a Mrs Catherine Williams, mae'r ddwy yn Ysbyty Eryri.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da dros ŵyl y Nadolig at bob un o'r pentref sydd yn gaeth i'w cartrefi neu mewn cartref preswyl.

LANSIO CD

Nos Fercher, 12 Rhagfyr yng Ngwesty'r Snowdonia Park, lansiwyd CD 'Doniau'r Waun'. Cwmni Gwynfryn Cymunedol sydd yn gyfrifol am y CD. Dyma anrheg gwerth chweil i'w brynu i ffrindiau neu i chi eich hun.

CYMANFA GANU. Cafwyd naws y Nadolig yn y Gymanfa Ganu Carolau yng Nghapel Croesywaun nos Sul, 9 Rhagfyr. Roedd côr plant yr ysgol o dan arweinyddiaeth Ms Gwenan Dafydd a Chôr y Waun o dan arweiniad Mrs Gwenda Griffith yn cymryd rhan. Llywydd y noson, ar ran Cymdeithas Atal Creulondeb i Blang oedd Mr Maldwyn Thomas.

PROFEDIGAETHAU. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Clough, Ynysoedd yn ei phrofedigaeth o golli ei mam. Hefyd anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Wilff Jones, Treflys yn ei golled o golli ei chwaer.

DYMUNA Mrs Idris JOnes, Goleufryn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

PROFEDIGAETH. Yng nghartref henoed Coed Isaf, Cyffordd Llandudno bu farw Mrs Mary Peters, gynt o Cae Steel, Waunfawr, yn 93 oed. Roedd yn fam i Harold, Dennis (Gresford), Raymond (Awstralia) a Leslie (De Affrica).

Cynhelir yr angladd ddydd Mawrth, 18 Rhagfyr yn Amlosgfa Bae Colwyn. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i meibion a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

APEL. Ydy, mae'n fis i ni blygu'r Eco eto y mis nesaf. Bydd rhifyn Chwefror yn dod o'r wasg tua diwedd mis Ionawr. Plis dowch i festri Capel Croesywaun i helpu gyda'r gwaith, o 5 o'r gloch ymlaen. Cewch y dyddiad ar dudalen gyntaf y rhifyn hwn.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion bro'r Eco.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112

Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng

NGHARTREF

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

yn LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

- **Trin cyrff ceir**
- **Gwaith Mecanyddol**
- **Gwasanaeth/Service**
- ***Valleting***

(01286) 870814

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Dave, Gill a staff y

GLYNTWROG LLANRUG

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

WENDY, GERAINT A STAFF

TAFARN PENBONT LLANRUG

Lle braf a chwmni difyr dros wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

---

PRYD I BAWB

Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES
CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG
MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD
PRIODAS
TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU
yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni

CERID MACKINNON
(01286) 673190
neu (0374) 925502

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb yn y fro

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN AFON ENGINEERING LTD

PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob math o waith metel

GWAITH BRYN AFON
LLANRUG, Ffôn: 675523

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

Wavell Roberts

CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon
673574

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn: C'fon: 675754

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

Sefydlwyd 1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teulwol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig 1917

Rhai blynyddoedd yn ol fe gefais gan fy nhad, Huw Gwynfa Roberts, hen lyfr nodiadau oedd yn perthyn yn wreiddiol i fy nhaid, Griffith Hugh Roberts, Hedsor Villa, Pontrhythallt. Roedd y llyfr yn amlwg yn dyddio o'r cyfnod y bu'n filwr gyda'r Royal Welsh Fusiliers yn y rhyfel fawr 1914 – 1918. Roedd y rhan fwyaf o'i gynnwys yn gyfarwyddiadau ar ddefnyddio amrywiol arfau ac offer rhyfel ond roedd hefyd yn cynnwys atgofion o'r daith a ymgymerodd ef a'i gyd filwyr i'r Aifft yn Rhagfyr 1917. Dwi'n gwybod dim am hynt a helynt fy nhaid ar ôl iddo gyrraedd yr Aifft ond bu ef, a'i ddau frawd Wil Hugh a John, yn ffodus i ddychwelyd yn ddianaf o'r rhyfel – yn wahanol wrth gwrs i nifer o ddynion ifanc eraill o'r ardal hon.

Iwan Roberts.

Gadawsom Oswestry ar fora Llun, 11eg o Ragfyr 1917, a diwrnod i'w gofio i bob un ohonom ar lawer ystyr oedd y diwrnod hwnnw. Un rheswm oedd ein bod yn gadael y wlad yma am y tro cyntaf erioed – llawer ohonom – ac hefyd gadael y wlad yma i fynd i ryfel. Yr oeddem wedi gweld amryw o fechgyn dewr yn torri i lawr ar ddiwrnod y drafft. Diwrnod ffarwelio â chartref am byth i filoedd oedd hwn.

Yr oedd rhywbeth am y drafft hwn yn ei gwneud hi'n haws na fawr yr un drafft welais i yn mynd o'i flaen. Yr oedd yn ddrafft mawr, tua 400 o rif, ac mae yn hawdd iawn mynd i ganlyn y crowd ac hefyd yr oedd nifer fawr o fechgyn Llanrug arno. Yr oeddem hefyd yn gwybod ein bod yn mynd i'r Aifft i uno â bechgyn oeddym yn eu hadnabod. Yr oedd yn llawer iawn haws mynd i'r Aifft adeg yma ac i Ffrainc.

Peth arall oedd yn ei gwneud hi'n haws i fynd ar y drafft yma oedd ein bod yn mynd ar fyr rybudd – cael rhybudd ar Nos Sadwrn a gadael bora Llun fel ein bod wedi cychwyn cyn i neb gartref wybod ein bod yn mynd. Yr oeddem ar un ystyr yn falch nad oeddem yn cychwyn oddi cartref. Buasai ffarwelio â rhieni, cyfaill a câr yn ei gwneud hi fwy anodd o lawer na mynd fel yr oeddym.

Yr oeddym ar y parade yn fuan y bore hwn, fel y bydda yr army bob amser, rhyw ddwy neu dair awr cyn amser cychwyn, yn rhedeg ac yn cyfri. Gadawsom y camp tua stesion Whittington yng nghanol dymuniadau gora ein comrades oedd ar ol ac o dan faich mawr. Yr oeddem yn cael ein blaenori gan fand y R.W.F. oedd yn help mawr i gario'r baich. Nid oedd gennym lawer o ffordd i'r stesion. Wedi cyrraedd yno yr oedd nifer fawr o ferched a phlant wedi dod yno i ffarwelio a'u hanwyliaid. Gwn fod nifer fawr o'r drafft yn digwydd dod o gyfeiriad Oswestry a Wrecsam ac yr oeddem yn gweld hyn yn ddigalon ond buan yr oeddym yn y tren ac yn gadael y stesion a'r band yn chwarae ar y platform – We'll keep the home fires burning.

Mae gennyf gof i ni fynd drwy ddwy stesion go fawr sef Oxford a Birmingham. Yr oedd yno de wedi ei baratoi i ni yn Birmingham ac roedd y bobl ar y stesion yn "free" iawn y diwrnod hwnnw yn rhannu cigarets a chocled. (Rwy'n cofio dod yn ol o'r rhyfel ar hyd yr un ffordd a stopio eto yn Birmingham i gael te ond doedd neb yn rhannu cigarets a chocled y tro hwn.)

Wel cyrhaeddom Southampton rhyw dro gyda'r nos. Yr oedd wedi tywyllu ac roedd y tren yn mynd a ni i'r dociau fel nad oedd gennym lawer o ffordd i farchio i'r llong. Wedi mynd i lawr o'r tren gwelsom long fechan yn disgwyl amdanom. Yr oeddwn yn amau a oedd yn ddigon mawr i fynd a ni i gyd ond erbyn cyrraedd yr oedd eisioes lwyth mawr arni. Beth bynnag fe'n paciwyd ni fel penwaig ynddi. Gollyngom ein paciau wrth ein traed yn rhywle a'i gwneud hi am lifebelt ac yn o fuan yr oedd yr hen long bach yn dechrau symud hi am dir Ffrainc.

Yr oedd y mor dipyn yn rough y noson hon a'r hen long bach yn dechrau rowlio ac amryw ohonom yn dechrau mynd yn anghyfforddus ac yn dechrau newid ein lliw. Bu'n rhaid i mi ei gwneud hi i rhywle ble roedd mwy o wynt. Es i fynny i'r deck er ei bod yn stormus ac oer. Yr oedd yn llawer brafiach gen i yno na'r lle clos i lawr ac roeddwn yn cael golygfa iawn o'r llonga rhyfal yn "chalengio" yr hen long fach efo eu gwahanol oleuada. Ymhen rhyw bum neu chwe awr roedden wedi cyrraedd porthladd Le Havre ond gorfu i ni aros yn yr hen long am dipyn gan nad oedd wedi dyddio eto.

Wedi i ddydd ddod dyma ni allan dan yr hen bac unwaith yn rhagor, ar dir Ffrainc y tro hwn. Roedd aml un yn taflu ei lygad i gyfeiriad yr hen wlad gan sibrwd y geiriau "Ti a wyddost beth ddywed fy nghalon." Wedi edrych ychydig o gwmpas roeddem yn teimlo ein bod mewn lle ble nad oedd rhyfel ymhell wrth weld milwyr Ffrainc a chanoedd o garcharorion German yn gweithio yn y dociau a gweld yr holl ynau a'r taclau o gwmpas.

Ond buan yr oeddem yn marchio trwy dref Le Harve. Tref fawr hardd oedd hon a'r ffasiwn yn wahanol iawn i Loegr a'r merched yn dechrau cael sylw. Yr oedd y daith hon yn faith iawn a'r pac yn mynd yn drymach o hyd – bron yn llethol. Cyrhaeddom y rest-camp oedd ar fryn uwch ben y dref mewn lle reit braf ond toedd yr olwg arno ddim yn braf. Roedd ceunan o eira drost y lle a digon o ddwr a mwd a'r tents yn ei ganol. Roedd golwg am wely gwlyb y noson honno. Yr oeddwn yn teimlo yn bur llwglyd a blin wedi cyrraedd ond fe roedd yno YMCA yn digwydd bod ac fe gawsom bryd reit rhad gan ei bod hi yn bur ddiolwg am ddim yn y camp. Arhosom yn y camp hyd at nos Fawrth pan gychwynom unwaith yn rhagor am orsaf Le Havre. Wedi cyrraedd yr orsaf a gweld y biscuits caled a'r Bully Beef wedi ei lwytho i'r tren fe ddaru ni ei gwneud hi am fara o rhyw siop oedd yn y stesion gan nad oedd gennym fawr o stumog am y biscuits a doedd dim golwg am fawr arall ar y tren.

Gadawsom Le Havre ar dren debyg i dren chwarel a'r cariages yn agored. Mi roesom ein hunain i lawr i gysgu – rhai ar y seddi a'r lleill ar y llawr hyd bore trannoeth. Erbyn y bora roeddem ymhell yng nghanol Ffrainc yng nghyffiniau Paris. Fe stopiodd y tren am rhyw ddwy awr ac fe gawsom damaid o frecwast efo'r dorth a'r beef a dyna lle roedd y Ffrancod o'n cwmpas eisiau i ni werthu Bully Beef iddynt. Ffranc oeddynt yn ei gynnig am dun.

Oddiyma yr oeddem yn newid ein cyfeiriad i lawr am ddeheudir Ffrainc a bydda'r tren yn stopio un neu ddwywaith y dydd i ni gael cyfle i gael te a dwr. Ble bynnag y byddem yn stopio eisiau Bully Beef oedd y Ffrancwr ac yn gwerthu gwin. Fel yr oeddem yn mynd ymlaen yr oeddym yn mynd drwy wlad hardd a ffrwythlon. Gwinllanoedd mawr ym mhob man. Nid oedd y bobl y ffordd yma yn medru yr un gair o Saesneg na ninnau yn medru yr un gair o Ffrench ac eithrio yr athro H. Griffith. Nid oeddynt chwaith yn deall yr un dim am arian Lloegr er ein bod ni yn deall rhywfaint am arian Ffrainc erbyn hyn. Fe gawsech fwy yma am dipyn o goppers nag a gawsech am swllt gwyn neu ddau. Rwy'n cofio i mi fynd i rhyw siop fach oedd yn ymyl rhyw stesion i brynu rhywbeth ac fe roddais hanner coron ar y cownter. Daeth yr hanner coron ac amryw o bres arall yn ol felly y mwya fasech yn ei brynnu yma mwya o bres fasa gennych yn y cwr yma o Ffrainc.

Cyrhaeddom Marseilles yn hwyr nos Wener ar ol bod ar y tren 2 ddiwrnod a 3 noson. Pass go lew ynte. Cerddom i rest-camp unwaith eto ac yr oedd

(parhad ar dudfalen 19)

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER

PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER POB ACHLYSUR

★ Cig o ffermydd lleol
★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
★ Partïon rhwng 40 a 400!
★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
LANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi
Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug
(01286) 674416 neu (07880) 847161

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth y ganolfan newydd am fargeinion dodrefn

CM DISCOUNTS
LLANRUG

yng Nghapel Mawr
LLANRUG
Ffôn 674141

Ar agor: Llun – Sad 1-6;
Sul 10-4

Rygiau, Cabinets, Byrddau, Cypyrddau dal llyfrau, Desgiau, Cadeiriau, Soffas, Gwelyau ayyb

Cynnig agoriadol: 5% o ddisgownt ychwanegol wrth ddangos yr hysbyseb hwn!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth

ARFON A CARYS
SIOP CHIPS
TEGFAN
Y Sgwâr
LLANRUG
676128

CYFARCHION NADOLIG BUSNESAU LLANRUG

Simneau glân am bris rhesymol gan

G. LLOYD
4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG
Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 674781

LINDA MORRIS
GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF
1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF
LLANRUG. Ffôn: 678857
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
PAT AC EDGAR
SWYDDFA'R POST
LLANRUG

Ffôn: (01286) 672422

SWYDDFA'R POST

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth **Elaine, a staff**

Elaine's

LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR	
Mawrth	9.00 - 7.00
Mercher	9.00 - 1.00
Iau	9.00 - 8.00
Gwener	9.00 - 8.00
Sadwrn	7.30 - 2.00

- Dydd Mawrth a Dydd Mercher i bensiynwyr
- Nos Fawrth i ddynion
- Coluro ar gyfer achlysuron arbennig
- Gwasanaeth arbennig ar gyfer priodasau

(Parhad o dudalen 17)

yna ychydig bach well golwg ar y camp yma. Yr oedd yr hin hefyd yn llawer tynerach yma nag yn Le Havre nag yn Lloegr. Yr oeddent yn bur strict yma. Nid oedd hawl i adael y camp heb ganiatad. Roedd milwyr Ffrainc yn gwylio'r camp a byddai'n rhaid mentro eich bywyd i dorri allan o'r camp hwn. Yr oeddem yn llwyddo i gael bara yma eto. Byddai merched yn dod i ymyl y camp i'w werthu cyn i'r bobl fawr godi ac mi oedd yn haws prynnu bara na cnoi y biscuits caled.

Llwyddais i gael pass i fynd allan i'r dref am ddiwrnod gyda amryw un arall a cefais olwg ar fywyd Ffrainc yn ei holl ogoniant. Darfu i ni daro ar forwr o South Wales ac fe aeth a ni i ddangos dipyn arni. Yr oedd hon yn brif dref Ffrainc y pryd hyn. Yr oedd y bobl wedi ffoi o Paris yma gan gymaint ofn y Germans. Mae Marseilles yn dref hardd iawn – un o'r trefi harddaf welais ar lawer ystyr.

Bum yn aros yn y rest-camp yma hyd brynhawn Mercher 20ed Rhagfyr 1917. Yr oedd yn rest go lew a byddem yn cael cyngherddau Cymreig bob nos ynddo. Wedi cyrraedd y llong gwelsom fod hon yn dipyn mwy na'r un a'n cludodd ni i Ffrainc. Llong yn perthyn i'r P.O. line Lerpwl o'r enw Kaelian – cargo boat wedi ei gwneud i fynny'n troop ship a llawer o'r criw yn fforiners. Aethom i mewn naill griw ar ol y llall – tua mil o honom i gyd – yn Saeson, Scotch, Cymru, Gwyddelod a Colonial Troops. Rhoddwyd ni mewn gwahanol messes arni a ni yn rhywle tua'r gwaelod. Wedi cadw ein pacia a'n rifles a chael lifebelts fe gawsom ein galw i'r gwahanol decks i ddarllen y roll. Rhaid oedd gofalu am gadw ein lifebelts am danom neu yn hwylus bob amser. Dangoswyd i ni hefyd ble i fynd pe buasai'r alarm yn digwydd mynd a pha raffts neu gychod i'w defnyddio. Rwyn cofio mai am rhyw raffts oeddem ni i fynd os digwyddai'r hen long gael ei suddo, rhywbeth oedd yn digwydd yn aml yr wythnosau hyn.

Yn gynnar gyda'r nos fe ddechreuodd yr hen long ymwthio i'r dwfr yn araf, a'r tir yn dechrau pellhau. Yr oeddem yn cael golwg hardd ar y porthladd yn ei oleuadau. Bum ar y dec am hir y noson honno gan fy mod yn meddwl cymaint am yr hen rafft ond es i orwedd toc a chysgu. Erbyn y bora roedd tir Ffrainc o'r golwg a ninnau'n teithio yng ngolwg tir Affrica gan mae dyna oedd cwrs yr hen long er ceisio osgoi y submarines. Roeddym yn cael ein harwain gan ddwy ddestroyer y rhai oedd yn chwilio am y gelyn tanforawl o'n blaen. Yr oeddem yn trafeilio yn araf yn y dydd ac yn gyflym yn y nos. Yr oedd y mor hwn yn dawel ac yn llyfn ac fe'i gelwir yn aml " Y Mor Tawel". Yr oedd yr hin wedi newid eto ac wedi dod yn ddigon cynnes – er yn Rhagfyr – i gysgu ar y dec drwy'r nos. Cawsom fordaith hapus heb i fawr ddim ddigwydd i'r hen long.

Roeddem wedi meddwl y buasem wedi cyrraedd y Batalion at y bechgyn erbyn y Nadolig ond fe ddaeth y diwrnod cyn i ni lanio ac fe dreuliwyd Nadolig 1917 ar y mor. Yr oeddem yn meddwl y buasem wedi cael Nadolig ardderchog ar yr hen long ac fe roedd yna hen ddisgwyl am y cinio gan ein bod wedi clywed fod yna olwg am Nadolig iawn i ni. Ond rwy'n cofio'r cinio yn iawn – ychydig o swp a phlym pudding. Pe buasech wedi cael golwg ar y cook hwnnw buasai'n ddigon o Nadolig i chwi am byth! Rhyw ddyn du mawr a locsyn coch ganddo a chwys yn rhedeg i lawr i bopeth. Ond fe ddaru ni ei enjoio'n iawn a chawsom goncert Cymraeg gwerth chweil gyda'r nos. Fe driodd y Scotch gynnal un ond fe roedd canu Cymraeg yn sgubo'r dec y noson honno.

Borc drannoeth darfu i ni ddod i olwg porthladd Alexandria ac aeth y llong i mewn yn gynnar yn y dydd. Dyna lle'r oedd canoedd o'r Eifftwyr yn hanner noethion yn ol eu harfer ac yn gweiddi "Bucsus". Glaniom o'r hen long ac roeddem yn falch o gael ein traed ar dir unwaith eto. Bu'n rhaid marchio drwy dref Alex i gamp mawr o'r enw Mastapha. Cawsom olwg rhyfedd wrth fynd drwy'r dref. Roedd rhai o'r trigolion wedi dysgu dipyn o Saesneg ac yn gweiddi wrth werthu "Oranges and nuts very good, very nice, very sweet, very clean."

Cyngor Cymuned Deiniolen
Gwelliannau i'r Ardal

Bydd modd ceisio am gyllid o wahanol ffynonellau yn ystod y tair blynedd nesaf i wella'r amgylchedd. Er mwyn manteisio ar y cyfle mae'r Cyngor wedi ffurfio 'Grŵp Cymunedol' i weithredu ar ran wyth pentref y gymuned.

Gwahoddir chwi, fel ardalwyr, i anfon syniadau o brosiectau yr hoffech gael eu hystyried at Glerc y Cyngor erbyn canol Ionawr. Er enghraifft, gellid trin tir diffaith; darparu lle parcio; tacluso waliau neu beth bynnag arall er mwyn gwella'r amgylchedd.

John B. Jones, Ceris, Deiniolen LL53 3LU. (01286) 871416

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580



Awen, Caryl, Rhian ac Anna a fu'n llwyddianus yng nghwmni beiblaidd yr Ysgol Sul.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol nos Lun, 19 Tachwedd gyda'r aelodau wedi ymgynnull yng Nghanolfan Gymunedol Cwm-y-glo. Cynrychiolwyd Ffederasiwn Gwynedd o Sefydliad y Merched gan Pat Parry, Waunfawr. Ail-etholwyd y swyddogion am y flwyddyn 2002. Trefnwyd y cinio Nadolig sydd i'w gynnal eleni yn Gardd Fôn, Y Felinheli.

CYFARCHION. Llongyfarchiadau i John Meirion a Gwawr Morris, Y Griolen ar enedigaeth eu wyres Grug Elain Morus ar 19 Tachwedd – merch fach i'w mab Dylan a Nia Morus, Y Marri. Roedd yn ddrwg gennym ddeall yn ddiweddarach i John Meirion Morris orfod mynd dan archwiliad i Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y bydd yn cael dod adref yn fuan.

CROESO i John Eifion, Marina, Lois ac Anest sydd wedi dod i fyw i Ffrwd Goch. Hyderwn y byddwch yn cartrefu yn fuan yn ein plith.

COFION. Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian a gipiwyd i Ysbyty Gwynedd ar 11 Rhagfyr, a hynny am yr ail waith yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chi cyn y Nadolig.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. CWIS BEIBLAIDD. Yn ddiweddar bu Caryl ac Awen Jones, Na Nog a Rhian ac Anna George, Swn yr Engan yn brysur yn paratoi ar gyfer Cwis Beiblaidd Cenedlaethol a gynhaliwyd dan nawdd y Cyngor Ysgolion Sul. Nos Fercher, 21 Tachwedd, wedi ennill y rownd gyntaf yn erbyn dau dîm, llwyddasant i ennill yr ail safle yn erbyn tîm o fechgyn a merched o Ysgol Sul Llithfaen. Derbyniasant dystysgrif a thlws hardd bob un yn wobr am eu llwyddiant. Llongyfarchiadau mawr i'r pedair ohonoch.

CASGLIAD. Eleni cyflwynwyd y casgliad wythnosol a wneir yn nosbarth Ysgol Sul yr oedolion, sef £100, i Gronfa Tŷ Gobaith Cymru.

TREFN OEDFAON IONAWR 2002

6: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon am 5.30;
13: Parch Dafydd Hughes, Caernarfon am 5.30;
20: Mr Alun Rowlands, Bangor am 5.30;
27: Parch Alwyn Roberts, Tregarth am 10.00.

LLANBERIS – (parhad o dudalen 5)

DYMUNA'r Cynghorydd Trefor Edwards Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl etholwyr yn Llanberis a Nant Peris, gan ddiolch am bob cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

DYMUNA Mr Cledwyn Parry, Glyder, Stryd Capel Coch ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a dymuniadau da tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

FFAIR YSGOL DOLBADARN. Diolch i bawb am gefnogi'r ffair. Cawsom noson lwyddiannus eto eleni gyda elw o dros £700.00.

Operation Christmas Child: Unwaith eto'r flwyddyn hon mae'r plant wedi bod yn brysur iawn yn llenwi boscus esgidiau efo anrhegion i blant bach yng ngwledydd Dwyrain Ewrop. Casglwyd ymhell dros 80 o focsus. Diolch i bawb am eu haelioni.

Ffarwelio: Daeth cyfnod Ymarfer Dysgu Mr Jones i ben ddiwedd y tymor. Bu'n gweithio'n ddiwyd iawn efo disgyblion Blwyddyn 6 gan roi profiadau gwerthfawr iddynt. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

Y Côr: Dydd Llun, 10 Rhagfyr aeth côr yr Adran Iau i Westy Victoria i roi adloniant i Gymdeithas Cyn-athrawon Gwynedd.

CARNIFAL. Yn dilyn Pwyllgor Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd, penderfynwyd cynnal Wythnos y Carnifal o'r 13 hyd 20 Gorffennaf 2002. Dewiswyd y swyddogion canlynol: Llywydd: Christine Rose; Cadeirydd: Eurwyn Thomas; Trysorydd: Arfon Phillips; Ysgrifennydd: Alan Tudor Jones. Gweddill aelodau'r Pwyllgor yw Julie, Sioned, Leslie, Pat, Alwyn, Arwyn, Tristan, Eric Emerson a Hugh.

TRO ARALL AM TRIER

(Parhad o'r rhifyn diweddaf)

Ar ôl treulio tridiau yn teithio dyffrynoedd Y Rhein a'r Mosselle, yn canu'n swyddogol ac yn answyddogol, roedd yn rhaid i aelodau Côr Dyffryn Peris droi eu golygon tua gwlad Luxembourg unwaith eto, a hynny am y tro olaf. Saif Trier yn Yr Almaen ac yn ffinio â Ffrainc, Gwlad Belg a Luxembourg. Felly, byr iawn oedd y daith drosodd i Luxembourg lle roedd y côr i berfformio am y tro olaf cyn dychwelyd i Gymru.

Ers sawl blwyddyn bellach mae yna gysylltiad agos iawn wedi ei sefydlu rhwng ardal chwarel lechi Perlê yn Luxembourg â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Yn anffodus iawn cysylltiad yr oes a fu ydyw – cysylltiad dwy chwarel wedi cau, a chyd-ddyhead trigolion y ddwy ardal i ddangos i'r oesoedd a ddel y glendid a fu.

Cyn y perfformiad olaf cafodd aelodau'r côr eu tywys drwy ran ogleddol Luxembourg gan ŵr oedd yn amlwg yn wladgarwr ac yn hyddysg iawn yn hanes a thraddodiadau y wlad arbennig hon. Nid yw Luxembourg fawr mwy na Chymru ac yn dirweddol debyg i ganolbarth ein gwlad. Ond maent gamau o'n blaenau. Maent yn hunan lywodraethol ac yn unfrydol falch o hynny, er wedi eu gwasgu rhwng gwledydd mawrion a phwerus Ewrop. Roedd balchder yn byrlymu o sylwadau y tywysydd wrth i'r bws ymlwybro drwy ffyrdd cefn gwlad hyfryd yr Ardennes yng ngogledd y wlad. Uchafbwynt y daith oedd sefyll ar dŵr uchaf Castell Burcht Bourscheid yn edrych i lawr yn warcheidiol ar ddyffryn hardd, yn union fel Castell Dolbadarn. Un o brif sylwadau'r tywysydd oedd fod holl gyfoeth y trysorlys yn cael ei ddosbarthu i ardaloedd deheuol y wlad. Dyma ardal dlawd Luxembourg. Onid oedd ei gynulleidfa yn ymwybodol o'r broblem ac yn cydymdeimlo a'i safbwynt? Dyma Ogledd Cymru cyfandir Ewrob!

Roedd cyngerdd olaf, ac o bosib, prif gyngerdd y côr wedi ei leoli yn Redange. Pentref oedd yn ffinio ag ardaloedd chwareli llechi Luxembourg. Mae cymdeithas gref o drigolion yn yr ardal yn benderfynol o gadw ar gof a chadw y diwylliant oedd yn gysylltiedig â'r diwydiant yn eu hardal. Dyma felly fan delfrydol i gynnal cyngerdd i ddathlu dyheadau dwy ardal oedd mor bell oddi wrth eu gilydd – Chwarel Perlê a Chwarel Dinorwig. Yn anffodus, ac am resymau tu hwnt i ddirnad neb, roedd maer etholedig yr ardal wedi penderfynu peidio â chefnogi y cyngerdd. Gan ei fod yn graeadur sobor o wrthwynebus i dwristiaid ac yn anymwybodol o draddodiad yr ardal teimlai fod y cyngerdd yn groes i'w ddaliadau. Condemniai unrhyw un a fyddai'n presenoli ei hun yn y cyngerdd!

Gan ei fod yn greadur mor amhoblogaidd fe lwyddodd y gymdeithas i lenwi'r neuadd. Trodd y trigolion yn eu degau ynghyd â chynghorwyr eraill yr ardal ac Aelod Seneddol yr ardal yn Luxembourg. Cafwyd gwledd cyn y cyngerdd. Yn wir, cafwyd gornest hollti llechi! Mwynhaodd y gynulleidfa y gystadleuaeth hollti rhwng cynrychiolydd Redange ac Ifan Bryn Ty'r Ysgol Dinorwig. Cafwyd esboniad trylwyr ac addysgol o'r grefft gan Haydn Lewis, Prif Beirianydd Amgueddfa Chwarel Dinorwig cyn yr ornest. Ond pleser a mwynhad i'r Cymry oedd yn bresenol oedd llwyddiant digamsyniol Ifan!

Cafwyd cyngerdd i'w gofio gan y côr gan adael pawb oedd yn bresennol yn teimlo'r balchder fod y cwlwm cyswllt rhwng y ddwy ardal wedi ei atgyfnerthu a'i sicrhau, er gwaethaf pawb a phopeth. Llysgenhadon Cymru go iawn!

Gareth Hughes a'r côr yn swyno'r dorf yn Luxembourg.

Ifan Bryn a Haydn Lewis yn dangos sut i hollti.

Welodd Luxembourg mo'u tebyg!

HOLIDAY HOME PARK
Brynteg

- lle gwireddwyd breuddwyd mewn tair blynedd

Mae Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg yn falch o fod wedi ennill gwobr **"Y Parc Gorau ym Mhrydain" Calor 2002** a hefyd **Gwobr Aur David Bellamy** am welliannau amgylcheddol.

Dymunir diolch i drigolion ardal Eco'r Wyddfa am eu cefnogaeth ac anogaeth yn ystod datblygiad y parc. Buddsoddodd y perchnogion, Talacre Beach Caravan Sales Ltd, fwy na £3.5 miliwn ym Mrynteg dros dair blynedd. Yn y broses, crewyd rhagor na 40 o swyddi. Hefyd cefnogwyd a noddwyd nifer o achosion da lleol.

MAE CYFARWYDDWYR, RHEOLWYR A STAFF BRYNTEG, LLANRUG, YN DYMUNO NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD FFYNIANNUS I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH

DENNIS ROBERTS

(Glyn Roberts a'i Fab)

DYNION GLO LLANRUG

Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Chwilota

(parhad o dudalen 4)

cynnar rheini. Gan Mr Hugh Richard Jones, bellach o Lanberis, ond gynt o Lanrug, y daeth y llun.

Doctor Wyn Jones, meddyg Llanberis a'r cylch, ac ymgynghorydd yn Ysbyty'r Chwarel oedd yn gyfrifol am y dosbarth, yn cael ei gynorthwyo gan Robert Jones, arbenigwr cymorth cyntaf, ac un yr oedd gofyn mawr amdano yn Chwarel Dinorwig.

Mr Hugh R. Jones, yw'r unig un o'r dosbarth sy'n parhau'n fyw – os na all rhywun o'r darllenwyr adnabod yr un dyn bach yn y llun sy'n sbecian drwy ddrws cefn y Sefydliad!

Caption 2 golofn : Rhes gefn (chwith i'r dde) Moi Parry, Robert D. Evans, Hugh R. Jones, Hughie Green, Ellis Ifor Hughes, Robert Jones, Daniel Lewis, Elfed Hughes, John Hughes a William Jones. Rhes flaen (chwith i'r dde) Ifan Hughes, William Williams, Doctor Wyn Jones, Hugh Jones a David S. Williams. Yr aelod arall o'r dosbarth sy'n gorwedd ar y stretsiar yw Ceris Jones.

Dosbarth Hanes yn Llanrug

Ar dudalen arall cewch wybodaeth am ddosbarth hanes i'w gynnal yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug o fis Ionawr ymlaen. Teithio yng Ngogledd Cymru fydd y testun, a'r tiwtor fydd Gwilym Trefor Jones o Adran Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Cymru, Bangor. Cofiwch droi i mewn i glydwch y Sefydliad ar nos Fawrth, Ionawr 15fed am 7.00 o'r gloch.

Cystadleuaeth 'Nabod eich Gelltydd'

Mae'n arferol ac yn draddodiad Nadoligaidd bellach i wahanol bapurau a chylchgronau gynnal cystadleuthau i ddiddori ac i wylltio eu darllenwyr dros ddyddiau'r ŵyl – fel tae dim digon o bethau eraill i'w gwneud yn barod!

Felly, dyma ymuno â'r traddodiad. Yn dilyn cewch restr o enwau gelltydd yn y fro neu ar gyrion y fro. Y cyfan sy'n rhaid i chwi ei wneud yw lleoli y gelltydd. Bydd tocyn llyfr gwerth £10 i'r enw cyntaf allan o'r het gyda'r atebion cywir.

1.Gallt Moses; 2. Gallt Pen Cefn; 3. Gallt Coed Mawr; 4. Yr Allt Goch (unrhyw ddwy ohonynt); 5. Yr Allt Ddu; 6. Gallt Llidiart Trwm; 7. Gallt Sam; 8. Gallt y Foel; 9. Allt Wen; 10. Gallt y Glyn.

Bydd yn rhaid i chwi anfon yr atebion i mewn y tro hwn – nid codi'r ffôn a'u rhestru! Dyddiad cau: Ionawr 20fed.

Y Sefydliad Coffa

Gyda diolch i Mrs G.M. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug am dynnu sylw at erthygl y mis diwethaf. Mae'n cofio cychwyn y Sefydliad Coffa, ac fel y byddai mudiad y Women's Institute yn cyfarfod yno yn rheolaidd dan lywyddiaeth Mrs Closs, Llwyn y Brain. Cofia hefyd mor Seisnigaidd oedd y cyfarfodydd bryd hynny. Mae'n amheus ganddi ai'r piano gwreiddiol sy'n dal yno, oherwydd mae'n cofio derbyn piano yn rhodd i Sefydliad y Merched yn ddiweddarach pan ddatblygodd y mudiad hwnnw'n fwy Cymreig ei naws, a'r aelodau wedi ffurfio côr i gystadlu yn eisteddfod y sir.

Gan ddymuno Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda o chwilota i bob darllenydd. Ar wahan i'r gystadleuaeth, gall pob ymholiad arall, neu wybodaeth am unrhyw agwedd o hanes lleol, fod yn ysgrifenedig neu ar y ffôn. Cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn : 01286 673515.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

LLONGYFARCHIADAU i Cheryl, 22 Dôl Afon am ennill Medal Aur am nofio. Oddi wrth Mam, Dad a Ffion.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymuna Mrs Mair Williams, Elidir View ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

ADREEF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Carys Williams, Stryd Newydd ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd i Mrs Ann Hughes a'i merch, Cheryl, 10 Dôl Afon, y ddwy wedi derbyn triniaethau yn Ysbyty Llandudno.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd gwasanaeth o Lithoedd a Charolau yn Hafan Elan Llanrug nos Lun, 3 Rhagfyr. Croesawyd pawb i'r gwasanaeth gan Mrs Margaret Latham. Darllenwyd y llithoedd gan yr aeloodau ac ymunodd pawb yn y carolau. Rhoddwyd y fendith gan y Parch Vittoria Hancock. Yr organyddes oedd Mrs Anwen Roberts. Cafwyd paned a mins pei wedyn wedi ei drefnu gan rai o'r aelodau. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Joyce Ransom ac fe'u henillwyd gan Miss C. Rowlands a Mr Peter Taylor. Diolchwyd i bawb am eu ffyddlondeb i'r cyfarfodydd gan Mrs Latham. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 4 Chwefror yn Hafan Elan, Llanrug.

STEPHEN JONES

Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS
RHIWLAS
01248-361044

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
LLOGWCH FWS I'W DDATHLU'N DDIOGEL

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Ancuryn, Rhiannon a'r staff

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

DYMUNA Gwen Rowlands, Deiniol Road ddiolch o galon am bob ymweliad a charedigrwydd yn ystod ei hanwylder yn ddiweddar.

DYMUNA Mrs Vera Parry, Bro Dawel ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau a'r holl alwadau ffôn tra roedd yn Ysbyty Gwynedd.

MAE Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafol Olau yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion.

YSOL GWAUN GYNFI.

Nadolig Fictorianaidd. Bu dosbarthiadau 3 a 4, sef dosbarthiadau Mr Parry a Mrs Down, yn ymweld â Chastell Penrhyn ar ddydd Llun, 17 Rhagfyr i weld sut yr oedd trigolion Castell Penrhyn yn treulio eu Nadolig yn yr Oes Ffictorianaidd ac i wneud addurniadau a melysion ar gyfer y Nadolig.

Cyngerdd Nadolig. Cafwyd cyngerdd llwyddiannus iawn gyda holl blant yr ysgol yn cynnal perfformiadau drwy ganu, adrodd ac actio.

Sioe Bypedau. Ar ddydd Llun, 10 Rhagfyr bu Mr Marc Griffiths yma yn rhoi sioe bypedau ynglŷn â pheryglon ysmygu i blant yr adran Iau. Hefyd cynhaliwyd sioe ar ddydd Mawrth, 18 Rhagfyr i holl blant yr ysgol am beryglon cyffuriau.

Cinio Nadolig. Mwynhaodd y plant a'r staff ginio Nadolig gwerth chweil ar ddydd Mawrth, 18 Rhagfyr. Diolch i Mrs Elan Williams a staff y gegin am eu gwaith caled.

Cymeraf y cyfle hwn i ddymuno Nadolig Llawen a dymuniadau gorau at y flwyddyn newydd a diolch i bawb am eu cydweithrediad arferol.

EISTEDDFOD 2001. Eleni eto cafwyd eisteddfod lwyddiannus yn Neiniolen a bu cystadlu brwd yn y pnawn a'r cyfarfod nos.

Y beirniaid oedd Einir Wyn Williams (Cerdd); Selwyn Griffith (Adrodd a Llên); Pat Jones (Celf a Chrefft a Gwilym Williams (Celf a Chrefft).

Arweinyddion y pnawn oedd Jennie Lyn Morris, Elfed Morgan Morris a Mr Gareth Parry. Cyfarfod yr hwyr: Mr Hefin Goronwy Jones a Mr John P. Jones. Cyfeilyddes y ddau gyfarfod oedd Annette Bryn Parri.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth eto eleni ac yn arbennig i'r plant bach am roi mwynhad mawr i'r gynulleidfa yng nghyfarfod y pnawn.

PNAWN

ADRODD. Ysgol Feithrin: 1. Gwydion; 2. Ynyr; 3. Gruffydd; 1. Alaw; 2. Stacey; 3. Osian a Leah. Bl.Derbyn: 1. Rhys Ellis; 2. Tomos; 3. Callum. Bl.1,2: 1. Cai; 2. Heddwyn; 3. Elin. Bl.3,4: 1. Cadi; 2. Mandy; 3. Daniel.

CANU. Ysgol Feithrin: 1. Gwydion; 2. Ynyr; 3. Gruffydd. 1. Gareth; 2. Alaw; 3. Osian a Catrin. Bl.Derbyn: 1. Tomos; 2. Catrin; 3. Rhys Ellis. Bl.1,2: 1. Heddwen; 2. Jack; 3. Kelsey. Bl.3,4: 1. Daniel; 2. Gwenno a Mandy; 3. David. Bl.5,6: 1. Ffion Medi; 2. Stephanie; 3. Daniella.

UNAWD OFFERYNOL. 1. Elin Morris; 2. Gavin Taylor; 3. Manon Jones.

CANU EMYN: 1. Ffion; 2. Sophia.

LLÊN Meithrin: 1. Catrin; 2. James; 3. Osian. Bl.0: 1. Daniel, 2. Catrin; 3. Tanya. Bl.1: 1. Heddwen; 2. Jack; 3. Gerwyn a Ffion. Bl.2: 1. Ar y Fferm; 2. Rhiannon; 3. Derry ac Elin. Bl.3: 1. Y Meddyg; 2. Batman; 3. Superman a Bob the Builder. Bl.4: 1. Daniel Wood; 2. Goldie; 3. Dutch a Little Mermaid. Bl.5: 1. Winnie the Pooh; 2. Jac y Jwc; 3. Steps Gold a Devil; Bl.6: 1. Pigglet; 2. Tiger; 3. Party Girls a Trip Trychineb y Pentref.

CELF A CHREFFT:

ARLUNIO: Ysgol Feithrin: 1. Ffion Warner; 2. Gruffudd; 3. Alex Parry. Dosb Meithrin: 1. Catrin Jones; 2. Karine Collins; 3. Cai Owen. Dosb Derbyn: 1. Catrin Jones; 2. Lliwen Morris; 3. Iola Jones. Bl.1: 1. Heddwen; 2. Hayley; 3. Gethin. Bl.2: 1. Lowri; 2. Dim enw; 3. Calvin. Bl.3: 1. Brittney Spears; 2. Superman; 3. Jonathan. Bl.4: 1. Daniel Woods; 2. Gwenno; 3. Cadi Haf. Bl.5: 1. Siôn; 2. Sabrina; 3. Barry John. Bl.6: 1. Gerallt; 2. Aimee; 3. Sioned.

GWAITH LLAW. Ysg.Feithrin: 1. Kelly Thomas; 2. Gwydion Glyn; 3. Ynyr. Dosb Meithrin: 1. Sioned Rowlands; 2. Rhys Owen Parry; 3. Steffan Jones. Dosb 1,2: 1. Tudur Wiliams; 2. Damien Christopher; 3. Jack Ynyr. Bl.3,4,5,6: 1. Ffion; 2. Sophia Williams; 3. Owain Llyr.

GWEHYDDU. Bl.Derbyn, 1,2: 1. Ceri a Hayley; 2. Ffion a Iola a Cai; 3. Gerwyn. Bl.3,4,5,6: 1. Caryl ac Aimee; 2. Gerallt ac Arwyn; 3. Gwenno a Rebecca.

GWNIO. Bl.Derbyn, 1,2: 1. Elin a Sophie; 2. Lowri; 3. Catrin. Bl 3,4,5,6: 1. Sophia; 2. Sioned; 3. Manon.

COGINIO. Bl.Derbyn, 1,2: 1. Sophie Taylor; 2. Tudur Williams. Bl.3,4,5,6: 1. Gwion Rhys; 2. Tinker; 3. Gavin Taylor.

FFOTOGRAFFIAETH. Ysgol Gwaun Gynfi: 1. Sophia Williams; 2. Daniel Elis; 3. Liam Joseph.

Tlws Llenyddiaeth Dan 12 Oed: Daniel Wood;

Tlws Er Cof am Mr Eames: Gerallt;

Ymgais orau Adrodd: Cadi Haf;

Ymgais orau Cerdd: Ffion Medi.

CYFARFOD NOS

CERDD

Unawd Piano dan 12: 1. Lois Eifion; 2. Bronwen; 3. Sophia. Unawd dan 16: 1. Elin Mai; 2. Bedwyr a Manon; 3. Elen Gwenllian. Unawd Offerynol: 1. Delyth; 2. Rhian; 3. Elen Gwenllian. Unawd Cerdd Dant dan 21: 1. Elfed; 2. Manon Mai; 3. Elen Gwenllian. Cân Werin dan 25: 1. Manon Mai; 2. Elen Gwenllian. Unawd 16-21: 1. Elfed. Cân o Unrhyw Sioe Gerdd: 1. Elin; 2. Elen; 3. Morwena ac Alun. Cân Werin (Agored): 1. Morwenna; 2. Wmffra; 3. Alun.

Her Unawd: 1. Meirion; 2. Wmffra; 3. Alun; 4. Elin. Unawd Piano dan 21: 1. Lois Eifion; 2. Elen Gwenllian 3. Emma. Unawd Offerynol: 1. Delyth. Emyn Dros 50: 21. Katie Wyn; 2. O.P.; 3. Glenys. Deuawd Agored: 1. Elfed a Manon; 2. Alun ac Wmffra. Parti Canu dan 12: 1. Parti Danielle. Côr neu Barti Ieuenctid: 1. Parti Manon; 2. Parti Mared. Cyfansoddi Emyn Dôn: Gwilym Lewis, Caergybi.

Tlws y Cerddor Dan 21: Elfed Morgan Morris.

Ymgais Orau Adran Gerdd dan 21: Elin Mai.

ADRODD

Dan 16: 1. Angharad; 2. Elen Gwenllian. Prif Adroddiad: 1. Meira; 2. Morwenna; 3. Wmffra.

LLÊN

Stori Fer: Helen Hughes, Carmel; J. Graham Williams, Cwm Tawe.

Englyn: Arthur Thomas, Porthmadog; Telyneg: Mr J. Lewis Jones, Yr Wyddgrug; Limrig: Mrs Mary W. Jones, Ceris; Llinell Goll: Mrs Hannah Mary Roberts, Dinorwig; Emyn Pasg: Helen Edwards, Bontnewydd; Brawddeg: Katie Wyn Jones, Llandwrog;

Y Fedal Lenyddol dan 21: Iwan Rhys, Caerfyrddin

Y Gadair: Hilma Lloyd Edwards, Bontnewydd;

CELF A CHREFFT

Gwau: 1 Mona Parry; 2. Menna Wyn Jones; 3. Margaret Evans.

GWAITH LLAW

Bl.7-13: 1. Manon.

FFOTOGRAFFIAETH Ysgol Uwchradd: 1. Nidian Caffo; 2. Urien Siôn.

Agored: 1. Valmai Williams; 2. Nid Bran Wen; 3. Alwyn Wiliams.

COGINIO (Agored): 1. Elan Williams; 2. Menna Wyn Jones; 3. Gwen Griffiths a Valmai Williams;

DYNION YN UNIG. (Agored): 1. Gwynfor James; 2. Hefin Goronwy Jones.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yr Eisteddfod ar 8 Ionawr, 2002.

CWRS SBAENEG. O dan nawdd 'Gyda'n Gilydd – Gwaun Gynfi' bwriedir cynnal cwrs dechreuwyr Sbaeneg i Dwristiaid yn Neiniolen yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Ceisir cynnal 10 dosbarth rhwng Ionawr a'r Pasg, yn dechrau tua 4.30 y pnawn. Y man cysylltu yw Emma Pritchard ISC Cyf. Ffôn(01286) 871999.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Cyfarchion y Tymor i bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus dydd Nadolig na Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr, na Dydd Calan, 1 Ionawr 2002. Gwasanaeth arferol bob diwrnod arall.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CLWB ORWIG. Yr wythnos ddiwethaf cyfarfu aelodau'r Clwb yng Nghanolfan Fynydda Blue Peris i fwynhau cyd-ganu a dawnsio, a'r mwyafrif yn ymuno yn yr hwyl o ddawnsio'r 'Hokey-Cokey' ar y diwedd.

Darparwyd y te gan Pat Ingle, Sue Michael ac Eve Braithwaite, ac enillwyd y raffl gan Andrew Griffith a Betty Lloyd Roberts. Dymunwyd yn dda i John Cantrell a Betty Roberts ar ddathlu eu pen-blwyddi.

Mewn cyfarfod o'r Clwb a gynhaliwyd yng Nghanolfan Blue Peris yr wythnos ddiwethaf cyflwynwyd i ni rai o sgiliau a pheryglon mynydda mewn gwahanol rannau o'r byd gan gynnwys Eryri gan Terry Taylor, trwy gyfrwng sgwrs, sleidiau a fideo. Yr oedd rhai o'r dringfeydd mwyaf peryglus a ddangoswyd wedi eu lleoli mewn rhan o Ogledd Cymru a oedd yn adnabyddus iawn i'r aelodau. Yr oedd y mentro i ddringo ar lethrau o rew yn gofyn am sgiliau a chanolbwyntio arbennig. Diolchwyd i Terry gan y Llywydd, John Cantrell.

Addawodd yr aelodau gefnogi Rosie Swale pan fydd yn rhedeg marathon yn fuan i godi arian at Age Concern Gwynedd a Môn. Cafwyd ar ddeall gan yr Ysgrifennydd Cymdeithasol y cynhelir y Cinio Nadolig yn Blue Peris ar 18 Rhagfyr. Darparwyd y te gan Sally a John Brennan ac enillwyd y raffl gan Megan Morris a Betty Bower.

Chwaraeon

(parhad o dudalen gefn)

8. Cymerodd Jim Laker 19 o wicedi mewn gêm brawf yn 1956., Pwy gymerodd y wiced arall?
9. Pa redwr Prydeinig fu'n bencampwr Olympaidd 1500m ddwy waith?
10. Ym myd rasio ceir Fformiwla Un, llysenw pwy oedd y 'Professor'?
11. Pwy yw'r unig dîm o'r Rhondda sy wedi chwarae yng Nghynghrair Pêl-droed Cymru ers ei sefydlu?
12. Ar pa faes y bu'r dorf fwyaf i weld gêm Cynghrair Pêl-droed Cymru hyd yn hyn?
13. Ym mha gamp roedd Jan Ulrich yn seren?
14. Ym mha ddinas mae tîm pêl-droed Feynoord yn chwarae?
15. O pa wlad daw'r chwaraewr snwcer Tony Drago?
16. Cwpan y Byd pa gamp a gynhaliwyd yn China am y tro cyntaf yn 1991?
17. Beth yw enw prif gwrs rasio ceffylau dinas Paris?
18. Ym mha ddinas yn Ne Affrica yr enillodd Ian Woosnam £1,000,000?
19. Ym mha wlad roedd y frwydr focsio a alwyd 'The Rumble in the Jungle'?
20. Pwy yw'r unig gôl-geidwad i sgorio gôl yng Nghwpan Pêl-droed Lloegr, o chwarae rhydd?

Atebion i'w gweld ar dudalen 6

Gemau Pêl-droed yr Ŵyl

Gyda'r tywydd mor fwyn, buasai'n braf mynd i gefnogi ein timau lleol dros yr Ŵyl. Yn anffodus, llwm iawn yw'r arlwy cyn ac yn ystod y Nadolig. Dros gyfnod y flwyddyn newydd mae nifer o gemau cwpan atyniadol. Dyma'r rhestr:

22/12: Dim gemau Cynghrair Gwynedd. Llanberis heb gêm. Bethel a Llanrug Reserves i ffwrdd.

29/12: Bodedern v Llanrug; Deiniolen v Llanrwst (cwpan); Llanrug Res. v Pwllheli Res. (cwpan); Bethel v Y Bermo (cwpan); Llanberis dim gêm.

5/1/02: Dyffryn Nantlle v Llanberis (Cwpan Barritt); Deiniolen v Dinbych (Cwpan Barritt).

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES
GARTH MAELOG
51 Stryd Fawr, LLanberis
Ffôn: 870840
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Jill a Peter

Fframia
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB



Gwynedd Hotel
& Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Roger a'r staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth
E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

CHWARAEON

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Rygbi'n mynd o nerth i nerth

Tim rygbi dan 18 Ysgol Brynefail

Eisoes mae nifer o gemau wedi eu chwarae dan 13, dan 15 a dan 18 ac er mai siomjedig yw canlyniadau yr ysgol iau mae'r bechgyn hŷn yn mynd o nerth i nerth.

Cafwyd gêm yn erbyn Friars yng Nghystadleuaeth Plât Cymru ym Mangor ac, er dechrau'n araf a bod ar ei hôl hi ar hanner amser o 5-1, Brynrefail sgoriodd unig gais yr hanner.

Yn yr ail hanner ysbrydolwyd y tîm wedi tipyn o anghytuno rhwng y ddau set o flaenwyr pan ddangoswyd y cerdyn coch i dri chwaraewr: (Un o Friars a 2 o Frynrefail) a sgorio dau gais ac un trosgais i ennill y gêm o 17-14.

Y wobr o ennill y gêm yw chwarae gartre yn erbyn 'Cardiff High School' ar ddydd Iau, 13 Rhagfyr. Heb os nac oni bai hon fydd y gêm fwyaf yn hanes rygbi'r ysgol. Pob lwc iddynt.

Fel 'warm up' i'r gêm fawr chwaraewyd yn erbyn tîm Glynllifon ac, er bod eu blaenwyr yn llawer mwy, trechwyd nhw o 25-7, gyda Owain Siôn Williams yn sgorio 3 cais a Dylan Morgan un.

Kit Newydd i Bethel

Kevin a Carolynne Johnson (y Bedol) yn cyflwyno kit i Trefor Faulkes ac Alun Williams (C. P. Bethel).

Cwis Nadolig Eco'r Wyddfa

1. Pa ddwy dalaith Wyddelig fydd yn cyfarfod yn rownd derfynol y Cynghrair Rygbi Celtaidd?
2. Y chwaraewr hynaf i chwarae yng Nghynghrair Pêl-droed Lloegr oedd Nail McBain (52 oed). I pa glwb?
3. Pwy yw prif sgoriwr Cynghrair Pêl-droed Cymru y tymor yma, hyd yn hyn?
4. Roedd Dr Mills Roberts yn gôl-geidwad enwog i Preston North End. Beth oedd ei waith ym Mro'r Eco?
5. Pa chwaraewr rygbi oedd y cyntaf i ddod ar y cae fel eilydd i Gymru mewn gêm ryngwladol lawn?
6. Ym mha bwysau bocsio oedd Randolph Turpin yn bencampwr byd?
7. Pa hyfforddwr bocsio haerai mai 'bachgen bach o Ferthyr' fu o erioed?

(parhad ar dudalen 23)

Anrhegion Santa 2001

1. *I 'ben bandits' y BBC yng Nghymru*: Ystadegau sy'n dangos yn eglur faint mwy sy'n gwylio pêl-droed yn hytrach na rygbi yng Nghymru.
2. *I 'ben bandits' y FAW*: Cynlluniau 'ymddeol yn gynnar', fel y cawn waed newydd wnaiff sbarduno ein gêm genedlaethol.
3. *I dîm pêl-droed Wrecsam*: Map o Ogledd Cymru i'w sgowtiaid, i roi elfen mwy 'lleol' i'w timau.
4. *I dimau pêl-droed Llangefni/ Glantraeth a Chemais*: Mwy o gefnogaeth ariannol gan eu hawdurdod lleol i gael tîm o Fôn yng Nghynghrair Cymru, a'r chwaraewyr yn gynhenid o'r ynys.
5. *I Orig Williams:* Tlws newyddiadurwr mwyaf addawol y flwyddyn.
6. *I'r fro:* Rheolwr fuasai'n ffurfio tîm ieuenctid i gynrychioli'r ardal yng nghwpan Ieuenctid Cymru.
7. *I Gerard Houllier*: gwellhad buan.
8. *I Alex Ferguson:* Cwpan Ewrop.
9. *O'r Cynulliad*: Arian i ddatblygu stadiwm amlbwrpas yn y gogledd. Oes rhaid mynd i Stadiwm y Mileniwm ar gyfer pob achlysur rhyngwladol?
10. *I Weinyddwyr y campau yng Nghymru*: Sylwi fod yr A470 yn mynd o'r De i'r Gogledd hefyd.
11. *I bawb*: Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda.

Adroddiad hanner tymor

Tair 'di mynd, tair i ddod?
Fel y cyfeiriais eisoes, prin iawn yw cynrychiolaeth y fro yng Nghwpan Iau y Gogledd eleni. Dyma gwpan a enillwyd Llanberis, Llanrug a Deiniolen, yn eu tro. Ydi hi am ddychwelyd i'r ardal eleni?
Mae'n gobeithion ar newydd-ddyfodiaid yr ardal, sef Bethel. Erbyn hyn maent wedi cyrraedd rownd yr wyth olaf, a hynny heb chwarae gartref. Bu raid iddynt deithio i Sychtyn ar y gororau, i Gaergybi i gyfarfod tîm Gwelfa y Dref, ac yna i Landudno i chwarae tîm y Cricedwyr. Yn amlwg, roedd yr olaf 'allan o dymor' canys chwaraeodd Bethel yn benigamp i ennill o 5-2. Unwaith eto mae Gavin Edwards yn rhwydo yn gyson.
Ceisiais feddwl beth oedd y record am y nifer o goliau mewn tymor yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch.
O'r dyddiau a fu rwy'n cofio Ken Jones (Llechid) yn rhwydo 45 gôl ac rwy'n siwr fod Richie Jones a Glyn Pritchard wedi cael tymor tebyg yn Llanberis. Rhwydodd yr amryddawn John Ogwen 49 gôl i Fethesda Celts mewn 22 gêm ganol y 60au. Roedd sgorwyr da yn Llanrug dros y blynyddoedd – Arfon Lewis, Dic Owen, ac ati.
Yn sicr, mae'r tîm newydd wedi cydio yn nychymyg y pentref, ac mae mwy o gefnogwyr Bethel yn y gemau i ffwrdd na rhai'r tîm cartref. Fel y gwelir o dan newyddion y pentref, mae'r ardal wedi cefnogi yn hael yn ariannol hefyd ac mae cryn edrych ymlaen i ddatblygu eu cae eu hunain a chael gemau 'cartref' go iawn.
Soniais droeon am haelioni busnesau yr ardal yn noddi cit ar gyfer nifer o dimau. Cafodd Bethel ddau git yn ddiweddar, un gan gwmni bysiau Arvonia a'r llall gan Kevin a Carolynne Johnson o'r Bedol. Pa un bynnag o'r lifrau a wisgir, gobeithio y bydd un yn dod a lwc iddynt a'r llall yn eu gyrru i'r rownd derfynol. Buasai cipio 'Cwpan fawr y Pentrefi' yn eu tymor cyntaf yn dipyn o gamp – a byddai dipyn o barti wedyn rwy'n siwr.